

Cynlluniau Iaith Gymraeg

Eu paratoi a'u cymeradwyo

yn unol â

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

BWRDD
YR IAITH
GYMRAEG



WELSH
LANGUAGE
BOARD

	Tudalen
Rhagair: Yr Arglwydd Elis-Thomas	3
Y ddogfen hon	4
RHAN I: RHAGYMDRODD	
Cynlluniau iaith: gan bwy?	6
Cynlluniau iaith: ar gyfer pwy?	7
Yr iaith Gymraeg a darparu gwasanaeth	8
Priodol o dan yr amgylchiadau a rhesymol ymarferol	9
Paratoi a chymeradwyo cynlluniau	10
RHAN II: O GANLLAW I GYNLLUN	15



**“... y mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yn y wlad hon.
Nid oes rhaid datgan hynny mewn cyfraith.
Nid yw'n cael ei ddatgan mewn cyfraith yn achos y Saesneg.
Mae'r Saesneg hefyd yn iaith swyddogol.”**

*Y Gwir Anrhydeddus Syr Wyn Roberts A.S.
(Gweinidog Gwladol yn y Swyddfa Gymreig ar y pryd)
(Tŷr Cyffredin, 15 Gorffennaf 1993)*



Tua blwyddyn yn ôl, fe ymgynghorodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar fersiwn drafft y ddogfen hon. Cawsom ein calonogi'n fawr gan yr ymateb, ac roeddem yn ddiolchgar am yr awgrymiadau buddiol, niferus a gawsom. Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r cyrff hynny, nifer ohonynt, sydd wedi cydweithio â ni drwy'r broses o baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg. Mae hyn oll wedi bod yn werthfawr er mwyn cwblhau'r ddogfen hon.

Wrth ei chyhoeddi, rwy'n ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb enfawr y mae Deddf yr Iaith Gymraeg wedi ei osod ar y Bwrdd. Yn gyntaf, dyna'r dasg o ddelio â chynifer o gyrff cyhoeddus mor wahanol. Yna rhaid inni gadw cydbwysedd rhwng y ddyletswydd sydd arnom i fod yn wrthrychol a chyson, a'r angen i fod yn realistig a hyblyg yn ein disgwyliadau mewn gwahanol rannau o Gymru. Rhaid inni benderfynu a ydym am gymeradwyo neu wrthod cynlluniau iaith, ond mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynghori'r rhai sy'n eu paratoi. Ac wrth gwrs, mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod cynlluniau yn parchu'r egwyddor ganolog o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a ymgorfforir yn y Ddeddf. Byddwn yn ceisio gwireddu'r holl amcanion hyn wrth ddefnyddio'r ddogfen hon a symud cynlluniau yn eu blaen.


Ond mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb hefyd ar gyrff y sector cyhoeddus. Dylent ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau cynyddol siaradwyr Cymraeg - aeth dyddiau gorfod cynnal protestiadau cyn bod cyrff yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg heibio, gobeithio. Eu cyfrifoldeb hwy yw gweithio'n barhaus tuag at weithredu'n llawn yr egwyddor o gydraddoldeb, ac i gynnig dewis go iawn o ran iaith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn, heb os, yn golygu cryn newid agwedd i lawer o sefydliadau. Ar draws y sector cyhoeddus, mae'n golygu buddsoddi tymor hir mewn gwasanaethau dwyieithog.

Ac wrth gwrs, mae cyfrifoldeb ar siaradwyr Cymraeg eu hunain - i fanteisio ar y cynnydd a geir mewn gwasanaethau Cymraeg, ac i sylweddoli na fydd yr hyn y maent yn disgwyl ei gael, bob amser, yn bosib ar unwaith.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg, felly, yn gwneud inni rannu'r cyfrifoldeb dros ei gweithredu. Rwyf o'r farn fod ysbryd y cyfrifoldeb hwnnw, - yn wir, ysbryd y Ddeddf ei hunan, - wedi ei ddal yn y gair sy'n ymddangos yn amlach, mae'n debyg, na'r un gair arall yn y ddogfen hon - sef y gair "dylai". Mae'n cyfleu'r hyn a ddylai ddiwydd os yw'r egwyddor o gydraddoldeb i'w pharchu a'i gweithredu. Mae'n cyfleu fod angen inni, gyda'n gilydd, ystyried a phenderfynu beth y dylid ei ddarparu. Mae hefyd yn cyfleu dimensiwn amserlen - y cyfle i gadarnhau y bydd yr hyn na ellir ei wneud heddiw yn cael ei gyflawni yfory.

Rwy'n siŵr y bydd y ddogfen hon yn cynorthwyo cyrff y sector cyhoeddus, beth bynnag fo'u maint neu'u gweithgareddau, i baratoi a gweithredu eu cynlluniau. Gobeithio y bydd y cyngor a'r arferion da ynddi hefyd yn cael eu mabwysiadu'n eang gan y rhai sy'n gweithio yn y sectorau gwirfoddol a phreifat yng Nghymru, wrth iddynt ymateb o'u gwirfodd i'r egwyddor o gydraddoldeb sydd yn y Ddeddf.

Fy neges yn syml i bawb sydd yn defnyddio'r ddogfen hon yw: "Cynlluniwch ar gyfer dwy iaith, a darparwch ar gyfer dwy iaith."



Yr Arglwydd Elis-Thomas

Cadeirydd

Mawrth 1996



Sefydlood Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg ar Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Gwnaeth y Ddeddf hefyd ddarpariaeth ar gyfer paratoi a chymeradwyo cynlluniau iaith Gymraeg.

O dan adran 9 y Ddeddf, mae gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ddyletswydd i gyhoeddi canllawiau i gyrrff cyhoeddus a sefydliadau'r Goron ynghylch ffurf a chynnwys eu cynlluniau iaith. Dylai'r cynlluniau hyn bennu'r mesurau y bwriadant eu cymryd ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cysylltiad â darparu eu gwasanaethau er mwyn gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor o gydraddoldeb yn y Ddeddf.

O dan adran 3 y Ddeddf, mae gan y Bwrdd ddyletswydd hefyd i gynghori cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r Goron ar y ffyrdd y gallant weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, ac i'w cynghori ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y ddogfen hon, mae'r Bwrdd yn cydgyhoeddi'r canllawiau a'r cyngor cysylltiedig sydd, gyda'i gilydd, yn darparu fframwaith ymarferol a hyblyg ar gyfer paratoi cynlluniau yn unol â'r Ddeddf. Mae'r fframwaith hwn wedi ei ddatblygu i gwmpasu amgylchiadau yr ystod eang o gyrrff cyhoeddus a sefydliadau'r Goron - o gynghorau cymuned i adrannau'r llywodraeth - fydd yn paratoi cynlluniau. O gymryd y bydd cannoedd o sefydliadau gwahanol yn paratoi cynlluniau dros y blynyddoedd nesaf, mae'n anymarferol i'r Bwrdd lunio fframwaith ar wahân ar gyfer sefydliadau unigol, neu categorïau ohonynt. Yn wir, mae'r Ddeddf yn nodi hwn fel mater i'w ystyried yng nghyd-destun cynlluniau iaith unigol, drwy ddefnyddio'r prawf o'r hyn sy'n "briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol" a nodir yn adran 5(2) y Ddeddf.

Dull y Bwrdd o ddelio â hyn, felly, fu cynnwys canllaw neu gyngor penodol fel rhan o'r fframwaith os yw'n berthnasol i unrhyw sefydliad a fydd yn paratoi cynllun. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu wedyn y bydd y canllaw neu'r cyngor yn berthnasol i bob sefydliad. Mae'n fater i sefydliadau ei ystyried wrth baratoi eu cynlluniau, ac i'r Bwrdd ei ystyried pan gyflwynir cynlluniau i'w cymeradwyo. Mae'r canllawiau a'r cyngor sy'n gysylltiedig â hwy gyda'i gilydd felly'n cynnwys y materion hynny y dylai sefydliadau eu hystyried wrth baratoi cynlluniau. Mae gofyn iddynt ddewis y materion hynny sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau. Yn unol â'r Ddeddf, mae'r Bwrdd yn disgwyl iddynt wneud hynny mewn modd gwrthrychol. At hyn, mae'r Bwrdd yn cydnabod ei bod hi'n bosib iawn na fydd y cyngor yn y ddogfen hon yn delio â phob sefyllfa. Wrth baratoi eu cynlluniau, bydd rhai sefydliadau mae'n siwr yn taro ar ddulliau eraill o weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb. Bydd y Bwrdd yn croesawu eu hawgrymiadau.

O'i ran ef, wrth ystyried cynlluniau a gyflwynir iddo i'w cymeradwyo, bydd y Bwrdd yn rhoi sylw dyledus i natur, maint, lleoliad a gweithgareddau pob sefydliad, a'i berthynas â'r cyhoedd yng Nghymru, er mwyn pennu mewn modd gwrthrychol pa ganllawiau a chyngor sy'n berthnasol, a pha fathau o fesurau y dylid yn iawn eu cynnwys yn y cynllun. Wrth wneud hyn, bydd yn defnyddio'r prawf o'r hyn sy'n "briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol" a nodir yn adran 5(2) y Ddeddf.



Drwy ddefnyddio'r fframwaith o ganllawiau a chyngor yn y dull hyblyg a gwrthrychol hwn, bydd y Bwrdd yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng sefydliadau a rhwng gwahanol rannau o Gymru. Wrth gwrs, ni fydd y Bwrdd yn disgwyl i sefydliadau gynnwys mesurau nad ydynt yn briodol. Ni fydd y Bwrdd ychwaith, mewn nifer o achosion, yn disgwyl gweld pob mesur a gynhwysir mewn cynllun yn cael ei weithredu ar unwaith. Yn unol â'r hyn a nodir yn adran 12(2)(a) y Ddeddf, bydd cynlluniau'n cynnwys amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau y mae sefydliadau'n bwriadu eu cymryd. Gall cynlluniau fod yn ddatblygiadol felly, lle bydd y sefydliadau dan sylw'n gweithio o fewn amserlen a gytunwyd arni tuag at weithredu, cyn belled ag y bo'n briodol i amgylchiadau eu gweithgareddau, yr egwyddor o gydraddoldeb yn y Ddeddf.

Mae hyn yn crynhoi'r fframwaith o ganllawiau a chyngor yn y ddogfen hon. Mae'r fframwaith yn creu'r dull mwyaf priodol o fewn darpariaethau'r Ddeddf i ddelio â'r amrywiaeth mawr o sefydliadau a fydd yn paratoi cynlluniau iaith.



Cynlluniau iaith: gan bwyl?

1.1 O dan adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (“y Ddeddf”) gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg (“y Bwrdd”) gyflwyno hysbysiad i gorff cyhoeddus, fel y’i diffinir yn adran 6 y Ddeddf, yn mynnu ei fod yn paratoi cynllun yn unol ag adran 5 y Ddeddf. Mae adran 5 yn nodi:

- “5. (1) *Bydd pob corff cyhoeddus y cyflwynir hysbysiad iddo o dan adran 7 isod ac sydd -*
- (a) *yn darparu gwasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru, neu*
- (b) *yn ymarfer swyddogaethau statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau gan gyrrff cyhoeddus eraill i’r cyhoedd yng Nghymru, yn paratoi cynllun i bennu’r mesurau y bwriada eu cymryd, at y diben y cyfeirir ato yn isadran (2) isod, ynglŷn â defnyddio’r iaith Gymraeg mewn cysylltiad â darparu’r gwasanaethau hynny, neu’r cyfryw wasanaethau o’u plith ag a bennir yn yr hysbysiad.*
- (2) *Y diben y cyfeirir ato yn is-adran (1) uchod yw gweithredu, cyn belled ag y bo’n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg ar y Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.*
- (3) *Wrth baratoi cynllun o dan y Rhan hon o’r Ddeddf hon bydd corff cyhoeddus yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Bwrdd o dan adran 9 isod”.*

1.2 Mae canllawiau statudol y Bwrdd a gyhoeddir o dan adran 9 y Ddeddf wedi eu cynnwys yn Rhan II y ddogfen hon.

1.3 Mae adran 21 y Ddeddf yn rhoi sylw i’r darpariaethau hynny sy’n berthnasol i bersonau sy’n gweithredu fel gweision neu asiantau i’r Goron, megis adrannau’r llywodraeth a chyrrff y Goron. Mae cyrrff y Goron, er enghraifft, yn cynnwys asiantaethau’r llywodraeth, cyrrff ymgynghorol y llywodraeth, ar Llysoedd. Mae adrannau’r llywodraeth yn cynnwys adrannau y tu allan i Gymru, fel y Swyddfa Gartref ac Adran yr Arglwydd Ganghellor, y mae eu swyddogaethau’n cynnwys darparu gwasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru. Mae adran 21 yn mynnu bod personau sy’n gweithredu fel gweision neu asiantau i’r Goron hefyd yn rhoi sylw i’r canllawiau a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 9 y Ddeddf, pan fyddant yn paratoi cynlluniau iaith Gymraeg.

1.4 Er nad yw adrannau’r llywodraeth a chyrrff y Goron o dan ddyletswydd statudol i baratoi cynlluniau, mae’r Llywodraeth wedi gwneud addewid y byddant yn gwneud hynny. Yn ystod ail ddarlleniad Mesur yr Iaith Gymraeg yn Nhŷr Arglwyddi, dywedodd y Gweinidog Gwladol yn y Swyddfa Gartref ar y pryd (yr Iarll Ferrers):

“Bydd adrannau’r llywodraeth a chyrrff y Goron fel ei gilydd yn cynhyrchu cynlluniau, ac fe gaiff eu cynlluniau eu paratoi yn union yr un ffordd ac i’r un safonau â rhai cyrrff cyhoeddus eraill.”
(Hansard 19 Ionawr 1993)

Yn ystod yr un ddatl, esboniodd yr Iarll Ferrers hefyd:

“Bydd adrannau’r llywodraeth hefyd yn cyflwyno cynlluniau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn union fel petai’r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd arnynt i wneud hynny. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw i’r un canllawiau â’r rhai a fydd yn berthnasol i bob corff cyhoeddus arall.”
(Hansard 19 Ionawr 1993)



Felly mae'n ddyletswydd ar adrannau'r llywodraeth, cyrff y Goron a chyrff cyhoeddus (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'sefydliadau' yng ngweddill y ddogfen hon) i baratoi cynlluniau iaith. Bydd yn rhaid i bob sefydliad sy'n paratoi cynllun dalu sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan y Bwrdd.

- 1.5 Gall y Bwrdd roi hysbysiadau o dan adran 7 y Ddeddf mewn cysylltiad â darparu rhai o'r gwasanaethau neu yr holl wasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus unigol. Fe all y Bwrdd hefyd roi hysbysiadau ar wahân neu ychwanegol ar gyfer gwasanaethau unigol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i deilwrio'r cynlluniau i gyfateb ag amgylchiadau'r rhai sydd â'r dasg o'u paratoi, ac fe all y Bwrdd gyhoeddi cyngor pellach o dan adran 3 y Ddeddf yn arbennig ar gyfer gwasanaethau penodol.

Cynlluniau iaith: ar gyfer pwy?

- 1.6 Mae cynlluniau iaith yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r term "y cyhoedd" yn cynnwys unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennau p'un a ydynt wedi eu hymgorffori gydag atebolrwydd cyfyngedig ai peidio gan y byddant hwy hefyd yn rhan o'r cyhoedd. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn gynnwysedig o fewn y term "y cyhoedd". At ddibenion adrannau 5 a 21 y Ddeddf, felly, ystyr y cyhoedd yw'r personau hynny y mae sefydliad yn ymwneud â nhw wrth weithredu ei swyddogaethau. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys ymwneud â'r rheiny sy'n gweithredu yn rhinwedd swyddogaeth o gynrychioli'r Goron, y llywodraeth neu'r Wladwriaeth. Felly, ni fydd personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr "y cyhoedd" tra byddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.
- 1.7 Fel yr esboniwyd uchod, bydd yn rhaid i gynlluniau iaith ddatgan y mesurau y bwriada sefydliadau eu cymryd er mwyn trin y Gymraeg ar Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cwmpasu'r gweithgareddau hynny a gyflawnir er budd y cyhoedd yn gyffredinol yn ogystal ag er budd unigolyn neu unigolion penodol. Mae'r ystyr yn cynnwys perthynas cyflenwr/cwsmer rhwng sefydliadau â'r cyhoedd, lle darperir gwasanaethau yn uniongyrchol i aelodau o'r cyhoedd ac unigolion. Mae hefyd yn cynnwys, er enghraifft, cadw cyfraith a threfn, a swyddogaethau rheoleiddio megis cynllunio a rheoli adeiladu, rheoliadau iechyd a diogelwch, a swyddogaethau eraill lle na bydd cwsmer neu ddefnyddiwr penodol dan sylw.
- 1.8 Mae'r cyfeiriad yn adran 5 y Ddeddf i'r geiriau "yng Nghymru" o safbwynt darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn golygu bod yn rhaid i sefydliadau baratoi eu cynlluniau o safbwynt y gwasanaethau hynny y maent yn eu darparu sydd er budd y cyhoedd yng Nghymru (fel a drafodir ym mharagraff 1.7 uchod). Nid yw hyn, wrth gwrs, yn golygu bod yn rhaid i'r sefydliad ei hun fod "yng Nghymru" yn llythrennol.
- 1.9 O dan amgylchiadau arferol, ni fydd yn rhaid i sefydliadau weithredu yn unol â'u cynlluniau iaith wrth ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n rhan o'r cyhoedd yng Nghymru pan na fydd y bobl hynny yn gorfforol yng Nghymru (er enghraifft, os bydd person o Gymru yn ymweld ag



amgueddfa yn Llundain). Mi fydd eu cynlluniau'n weithredol, serch hynny, mewn achosion lle mae'r cyhoedd yng Nghymru yn gorfod gadael Cymru i gael y gwasanaeth hwnnw, fel gorfod mynd i'r llys. Mae'r Bwrdd, fodd bynnag, yn annog sefydliadau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ble bynnag y mae eu cwsmeriaid (er enghraifft, byddai'r Bwrdd yn ei hystyried yn anodd i sefydliad gyfiawnhau gwrthod gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg gyda phersonau sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru tra, ar yr un pryd, yn darparu'r gwasanaeth hwnnw yng Nghymru). Hefyd, dylai sefydliadau yn Lloegr sy'n gorfod darparu gwasanaeth sy'n cynnwys rhan o Gymru (er enghraifft, rhai ysbytai) wneud hynny yn Gymraeg pryd bynnag y bydd yn rhesymol ymarferol. Yn yr achosion hyn, er bod man cyflwyno'r gwasanaeth y tu allan i Gymru, bydd rhai o'r bobl hynny fydd yn derbyn budd y gwasanaeth yn rhan o'r cyhoedd yng Nghymru. Pan fydd cyfrifoldebau sefydliad yn cynnwys Cymru neu rannau o Gymru yn benodol, byddai'n artiffisial ei eithrio o'r angen i baratoi cynllun iaith, dim ond oherwydd bod rhan o'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno y tu allan i Gymru.

Yr iaith Gymraeg a darparu gwasanaeth

- 1.10 Man cychwyn pob cynllun fydd yr egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf. Wrth baratoi eu cynlluniau, mae angen i sefydliadau ystyried sut y byddant yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Dylent gymryd yr un safbwynt tuag at ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ag a wnânt yn Saesneg, drwy osod yr un amcanion a safonau proffesiynol.
- 1.11 Mae darparu gwasanaeth yn troi o gwmpas y cysylltiad rhwng sefydliadau â'r cyhoedd, a rhwng y cyhoedd â sefydliadau. Dylai sefydliadau felly ddarparu ar gyfer y rheiny sydd am ddelio â nhw yn Gymraeg. Wrth baratoi eu cynlluniau, ni ddylent ddibynnu ar y galw presennol am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddai'r ystyriaeth hon ynnddi'i hun yn ddigonol gan ei bod yn debygol y bydd y galw hwn yn cynyddu wrth i gynlluniau gael eu gweithredu, ac wrth i'r cyhoedd ddod yn fwy ymwybodol a hyderus y gall dderbyn gwasanaeth mor effeithlon yn Gymraeg ag yn Saesneg.
- 1.12 Cydnabyddir bod llawer o siaradwyr Cymraeg wedi troi i'r Saesneg yn y gorffennol wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus. Mae sawl rheswm am hyn. Cawsant eu hannog neu eu gorfodi i ddelio yn Saesneg yn unig, neu ni chawsant wybod pa wasanaethau oedd ar gael yn Gymraeg. Roeddent hefyd yn bryderus y byddai gofyn am wasanaeth yn Gymraeg yn creu argraff wael, ac y gallai defnyddio'r Gymraeg arwain at oedi neu at safon is o wasanaeth. Drwy eu cynlluniau, mae angen i sefydliadau sicrhau na fydd hyn yn digwydd.
- 1.13 Gallant wneud hynny trwy fabwysiadu a gweithredu'r safbwynt canlynol, sy'n parchu'r egwyddor o gydraddoldeb yn y Ddeddf:
 - cynnig i'r cyhoedd yng Nghymru yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â'r sefydliad;
 - cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u anghenion yn well yn eu dewis iaith;
 - cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio ei ddewis iaith yn fater o arfer da, nid goddefiad; a
 - chydabod y gall gwadu yr hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfa anfanteisiol.



Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau cyhoeddus i gyd, ond maent yn enwedig o briodol i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl sydd mewn sefyllfa o wendid, fel y gwasanaethau sy'n ymwneud â chynghori a gofal. O hyn ymlaen, felly, ddylai siaradwyr Cymraeg ddim gorfod pwyso am wasanaeth yn Gymraeg. Mae'n gyfrifoldeb ar sefydliadau i gynnig dewis go iawn i'r cyhoedd yng Nghymru o ran pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â nhw. Dylai gwneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg, felly, ddod yn ddim mwy na gwneud dewis.

- 1.14 Beth bynnag fu eu safbwynt a'u profiad hyd yn hyn, dylai sefydliadau gynllunio ar gyfer cynnydd mewn galw, a pharatoi i ymateb yn unol â hynny mewn modd sy'n parchu'r egwyddor o gydraddoldeb yn y Ddeddf. Bydd lefel y galw, wrth gwrs, yn amrywio o sefydliad i sefydliad ac o ardal i ardal, gan adlewyrchu proffil ieithyddol y boblogaeth.
- 1.15 Dylai sefydliadau hefyd gadw mewn cof ddisgwyliadau Gweinidogion. Mewn llythyr dyddiedig 16 Chwefror 1993 at yr Arglwydd Hooson (a gopiwyd at ddeuddeg Arglwydd arall gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd, yr Arglwydd Elis-Thomas), dywedodd yr Iarll Ferrers:
- “Bwriad y Llywodraeth yn bendant yw y bydd gweithredu'r egwyddor hon [yr egwyddor o gydraddoldeb] yn arwain at newidiadau pellgyrhaeddol i'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ar draws y sector cyhoeddus.”*
- Felly, dylai sefydliadau geisio mabwysiadu'r arfer gorau posibl bob amser o safbwynt defnyddio'r Gymraeg. Ni ddylai unrhyw sefydliad adael ei hun yn agored i feirniadaeth am gyflwyno'r gwasanaeth lleiaf posibl yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg.

Priodol o dan yr amgylchiadau a rhesymol ymarferol

- 1.16 Fel y nodwyd o'r blaen, man cychwyn pob cynllun fydd yr egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf. Dylai sefydliadau sy'n paratoi cynllun weithio tuag at weithredu'r egwyddor honno yn llawn cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r cymalau amodol hyn yn berthnasol i gynlluniau a mesurau, ac nid i'r egwyddor sylfaenol ei hunan.
- 1.17 Mae'r cwestiwn o ystyried a yw'r mesurau o fewn cynllun unrhyw sefydliad (yn unigol neu gyda'i gilydd), yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb “cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol” yn un sy'n ganolog i dasg y Bwrdd o ystyried pob cynllun a gyflwynir iddo i'w gymeradwyo. Bydd yn rhaid ystyried hyn mewn ffordd wrthrychol bob tro. Ni fydd yn dderbyniol i'r rheiny sy'n paratoi cynlluniau fabwysiadu safbwynt hynod oddrychol a chyfyngedig o'r hyn sy'n briodol o dan eu hamgylchiadau neu'n rhesymol ymarferol.
- 1.18 Yr amgylchiadau sy'n berthnasol i ystyriaeth sefydliad o'r hyn sy'n “briodol o dan yr amgylchiadau” yw'r amgylchiadau hynny sy'n ymwneud â natur y gwasanaeth a ddarperir gan y sefydliad, a natur y cyhoedd y mae'n darparu'r gwasanaeth hwnnw iddo (er enghraifft, lle bydd y gwasanaeth ond yn cwmpasu rhan o Gymru, proffil ieithyddol yr ardal honno) wedi ei sefydlu mewn ffordd wrthrychol.



1.19 Ar ôl penderfynu beth sy'n "briodol o dan yr amgylchiadau", yna dylai sefydliadau ystyried i ba raddau y byddai'n rhesymol ymarferol i'r mesurau sydd wedi eu pennu fel rhai priodol, gael eu cymryd. Yn y cyd-destun hwn, mae ystyr "rhesymol ymarferol" fel y'i diffinir yng Nghyfreithiau Halsbury, (cyfrol 20, paragraff 553) yn gulach na "chorfforol bosibl" ac yn awgrymu bod yn rhaid pwysu a mesur y sefyllfa. O safbwynt cynlluniau iaith, gellir ystyried manteision pob mesur i ddefnyddio'r Gymraeg yn erbyn y gost o'i gymryd, p'un ai mewn arian neu yn nhermau adnoddau eraill. Yn fwy na hyn, os na fydd rhywbeth yn wirioneddol bosibl yna, yn amlwg, ni fydd ychwaith yn rhesymol ymarferol. Er hynny, mae'r angen i weithio tuag at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn yn parhau. Caiff yr angen hwn ei adlewyrchu gan adran 12 y Ddeddf, sy'n nodi:

"Rhaid i gynllun gynnwys darpariaethau i bennu amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau a gynigir yn y cynllun ..."

Mae hyn yn cydnabod er na fydd hwyrach yn rhesymol ymarferol (nac yn wir yn wirioneddol bosibl) i fesur gael ei weithredu ar unwaith ar adeg paratoi'r cynllun, nid dyna ddylai'r sefyllfa fod o anghenraid yn y dyfodol. Felly dylai'r cynlluniau gynnwys darpariaethau i'w gwneud hi'n bosibl gweithredu'r mesurau hynny sy'n briodol, ond sydd heb fod yn rhesymol ymarferol o'r cychwyn, o fewn amserlen benodol.

1.20 Fel gyda'r rheol mewn achosion sifil, y sefydliad sy'n paratoi'r cynllun fydd yn gorfod dangos y bydd yr hyn y mae'n ei fwriadu yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

1.21 Gwnaed bwriad y ddau gymal amodol hyn, sef "priodol o dan yr amgylchiadau" a "rhesymol ymarferol", yn eglur gan y Llywodraeth yn ystod ail ddarlleniad Mesur yr Iaith Gymraeg. Dywedodd yr Iarll Ferrers, a oedd yn siarad ar ran y Llywodraeth:

"...fel yr wyf eisoes wedi ei wneud yn glir, ni chaff cyrff cyhoeddus gymryd safbwynt goddrychol o'r hyn y credant sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Bydd angen i'r dehongliad fod yn wrthrychol ymhob achos. Bydd angen iddo gael ei gytuno gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus allu ddangos eu bod wedi rhoi sylw i ganllawiau'r Bwrdd." (Hansard 2 Chwefror 1993).

Paratoi a chymeradwyo cynlluniau

1.22 Mae'r broses statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo cynlluniau wedi ei gosod yn Rhan II y Ddeddf. Fel y nodir ym mharagraff 1.4 uchod, bydd adrannau'r llywodraeth a chyrrff y Goron yn paratoi cynlluniau ac yn eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo yn union yr un ffordd â chyrrff cyhoeddus eraill. Mae paragraffau 1.23 i 1.37 isod yn gymwys felly i bob sefydliad sy'n paratoi cynllun.

Cychwyn y broses

1.23 Cychwynnir y broses statudol pan fydd y Bwrdd yn hysbysu sefydliad yn ysgrifenedig fod angen iddo baratoi cynllun ac, wrth wneud, yn rhoi dyddiad erbyn pryd y bydd angen iddo gyflwyno'r cynllun i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Bydd y cyfnod a roir ar gyfer paratoi a chyflwyno'r cynllun yn cynnwys cyfnod i ymgynghori'n gyhoeddus yn unol ag adran 13 y Ddeddf. Trafodir ymgynghori cyhoeddus yn fanylach isod. Rhoir dyddiad cau ar gyfer gwrthwynebu'r amserlen hefyd, gyda chynnig i egluro a thrafod disgwyliadau'r Bwrdd.



- 1.24 Os yw'r sefydliad yn anhapus gyda'r amserlen a fwriedir, fe all wrthwynebu yn ysgrifenedig ond bydd yn rhaid iddo wneud hynny erbyn y dyddiad a roddwyd, a rhoi rhesymau dros wrthwynebu. Ar ôl talu sylw dyledus i'r rhesymau hynny, fe all y Bwrdd gynnig estyn yr amserlen, neu gadarnhau y dyddiad gwreiddiol. Os na fydd y Bwrdd a'r sefydliad yn medru cytuno dyddiad i gyflwyno'r cynllun ar ôl trafodaeth bellach, yna fe fydd y Bwrdd yn cyfeirio'r mater i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w benderfynu.
- 1.25 Bydd y Bwrdd, mewn llawer o achosion, wedi trafod yr amserlen a fwriedir gyda'r sefydliad cyn cychwyn y broses statudol.

Paratoi'r cynllun

- 1.26 I lawer o sefydliadau, bydd yr angen i gynllunio a threfnu eu gwasanaethau gyda dwy iaith mewn golwg efallai yn gysyniad newydd. Bydd paratoi'r cynllun yn golygu paratoi'r sefydliad yn ogystal â drafftio'r cynllun. Bydd y cynllun yn cael effaith sylweddol ar draws llawer o sefydliadau; i eraill, bydd yr effaith yn llai. Pa faint bynnag fydd y ddarpariaeth Gymraeg, bydd angen i sefydliadau fuddsoddi mewn creu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth ymysg eu personél, a disgyblaeth a dulliau rheoli yn eu systemau busnes.
- 1.27 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r camau y bydd sefydliadau efallai am eu cymryd i gynorthwyo eu cynlluniau:
- (i) Gan ddefnyddio'r ddogfen hon fel fframwaith, efallai y bydd sefydliadau am wneud "archwiliad" o'u gweithgareddau, eu dyletswyddau a'u cysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru. Er enghraifft, os ydynt yn cysylltu drwy ysgrifennu neu dros y ffôn, neu os ydynt yn cyhoeddi taflenni a dogfennau eraill, bydd angen i'w cynlluniau gynnwys mesurau ar gyfer delio â'r sefyllfaoedd hyn. Gellir estyn y dadansoddiad hwn hefyd i gynnwys asiantau a chontractwyr sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran y sefydliad yn rheolaidd. Bydd yr ymarferiad hwn yn gymorth i roi bys ar yr hyn a ddylid ei gynnwys yn y cynllun. Ar yr un pryd, bydd sefydliadau efallai am sefydlu mewn dull trylwyr beth sy'n cael ei gyflawni'n barod.
 - (ii) Fe all yr ymarferiad hwn hefyd gynnwys dadansoddiad o sgiliau ieithyddol presennol y sefydliad. Cynhwysir cyngor ar sut i wneud hyn gyda Chanllawiau 8(i) ac 8(ii) yn Rhan II y ddogfen hon.
 - (iii) Trwy ddefnyddio'r ddogfen hon, gall sefydliad benderfynu hefyd ble yn ei systemau busnes i roi'r ddisgyblaeth a'r rheolau sydd eu hangen yn gefn i'r cynllun.
 - (iv) Mewn sefydliadau mwy, fe all fod o gymorth i sefydlu tîm cydlynu rhwng gwahanol adrannau, o dan arweiniad y cyfarwyddwr neu'r rheolwr sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu'r cynllun. Fe all y tîm hwn oruchwylio'r ymarferion a ddisgrifir uchod, a dechrau paratoi'r sefydliad ar gyfer unrhyw newidiadau sydd eu hangen. Gall ei aelodau hefyd weithredu i gynyddu ymwybyddiaeth a deall ymysg staff, ac esbonio yr hyn sy'n mynd i ddigwydd.
 - (v) Yn ei Femorandwm Esboniadol ac Ariannol i Fesur yr Iaith Gymraeg, cydnabu'r Llywodraeth y gallai fod oblygiadau ariannol i sefydliadau wrth ymateb i'r ddeddfwriaeth:



“...bydd y cwestiwn a fydd hyn yn golygu costau ychwanegol i gyrff cyhoeddus penodol yn dibynnu ar eu lefelau presennol a'u lefelau arfaethedig o wasanaethau Cymraeg ac ar argymhelliad Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid yw felly'n bosibl rhoi amcangyfrif realistig o oblygiadau ariannol cyffredinol y ddeddfwriaeth; ond lle bydd yna gostau ychwanegol, caiff y rhain eu cynnwys o fewn y cyllidebau arferol.”

(Mesur HL 54)

Cynghorir sefydliadau felly i gynnwys darpariaeth ar gyfer y mesurau a gynigir yn eu cynllun wrth ystyried gofynion cyllidebol at y dyfodol.

- (vi) Efallai y bydd sefydliadau sy'n darparu yr un gwasanaethau neu wasanaethau tebyg, fel awdurdodau lleol neu golegau, am chwilio am gyfleoedd i rannu gwybodaeth, i rwydweithio ac i osgoi costau dyblygol.

Mae gan y Bwrdd holiadur amlinellol i'w ddefnyddio wrth gymryd y camau yn (i) i (iv) uchod. Bydd ar gael i sefydliadau ei ddefnyddio neu ei addasu fel maent yn ei ddymuno.

- 1.28 Wrth baratoi eu cynlluniau, efallai y bydd sefydliadau am ymgynghori â'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn croesawu camau o'r fath, a bydd yn ymateb yn unol â'i ddyletswydd i roi cyngor o dan adran 3 y Ddeddf. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylwadau ar fersiynau drafft o gynlluniau cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd gofyn i sefydliadau ganiatau amser digonol i'r Bwrdd ymateb. Bydd unrhyw gyngor a roir, serch hynny, yn ddiymrwymiad rhag cyfaddawdu'r broses ymgynghori gyhoeddus na phenderfyniad terfynol y Bwrdd i gymeradwyo neu i wrthod cynlluniau pan gânt eu cyflwyno'n ffurfiol.

Ymgynghori â'r cyhoedd

- 1.29 Mae adran 13 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i gyhoeddi eu cynlluniau drafft at bwrpas ymgynghori â'r cyhoedd. Mae adran 13 yn nodi:

“13(1) Rhaid i [sefydliad] sy'n paratoi cynllun i'w gyflwyno i'r Bwrdd ymgynghori fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau sylwadau i gynrychioli aelodau Cymraeg ac aelodau eraill o'r cyhoedd y gall y cynllun effeithio arnynt.

13(2) Rhaid i [sefydliad] gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roir iddo gan y Bwrdd mewn cysylltiad â chyflawni ei ddyletswydd o dan isadran (1) uchod.”

- 1.30 Bydd dull yr ymgynghoriad yn amrywio rhwng sefydliadau a'i gilydd, yn ôl natur a rhychwant daearyddol eu gweithgareddau. Bydd y Bwrdd am drafod a chytuno'r rhaglen ymgynghori gyda phob sefydliad ymlaen llaw, ac ni ddylai sefydliadau ymgynghori'n gyhoeddus ynglŷn â'u cynllun heb gael sêl bendith ysgrifenedig y Bwrdd yn gyntaf. Y bwriad fydd sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru yn cael digon o amser a digon o gyfle i wneud eu barn am y cynllun yn hysbys.
- 1.31 Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gynllunio'u rhaglen ymgynghori, mae'r is baragraffau sy'n dilyn yn disgrifio'r fframwaith y dylent o'i fewn gynnig eu cynlluniau ymgynghori i'r Bwrdd. Fe all y Bwrdd, hefyd, roi cyfarwyddiadau eraill ynglŷn ag ymgynghori i sefydliadau unigol.
- (i) Dylai'r cynllun drafft ymgynghorol a gyhoeddir fod y fersiwn y mae'r sefydliad yn bwriadu ei gyflwyno yn ffurfiol i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg fel un ddogfen.



- (ii) Dylai'r cyfnod ymgynghori fod rhwng 8 a 13 wythnos. Bydd yr union gyfnod yn dibynnu ar y math o ymgynghoriad, ar natur y sefydliad, ac ar amseru'r ymgynghoriad.
- (iii) Bydd angen rhoi hysbysiad mewn papurau newydd yng Nghymru. Bydd yr hysbysiad yn ddwyieithog, mewn ffurf a ragnodir gan y Bwrdd. Bydd yn nodi pwrpas yr ymgynghoriad, cyfnod yr ymgynghoriad, y dyddiad cau ar gyfer gwneud sylwadau, a ble i'w hanfon. Bydd hefyd yn egluro sut mae cael copi o'r cynllun yn ddi-dâl a lle mae copi ar gael i'w astudio.
- (iv) Bydd y dewis o bapurau newydd yn adlewyrchu ardal weithredol pob sefydliad, a bydd yn cynnwys y prif bapurau dyddiol Cymreig neu bapurau wythnosol rhanbarthol, neu'r ddau fath, fel sy'n briodol i bob sefydliad. Bydd angen i fersiwn Gymraeg yr hysbysiad fel arfer ymddangos hefyd yn y papurau wythnosol Cymraeg.
- (v) Fel arfer, bydd angen i'r hysbysiad ymddangos ddwywaith o leiaf yn y papurau hyn, yn ystod yr wythnos cyn y cyfnod ymgynghori ar wythnos ddilynol. Pan fwriedir i'r hysbysiad ymddangos yn y papurau dyddiol ar rhai wythnosol rhanbarthol sy'n cylchredeg yn yr un ardal, gellir ei roi yn y papurau dyddiol un wythnos, ac yn y papurau wythnosol yr wythnos wedyn.
- (vi) Mae yng Nghymru rwydwaith o bapurau cymunedol Cymraeg misol, sef y papurau bro, bob un â'i ardal. Dylid anfon hysbysiad i'r wasg neu lythyr sy'n tynnu sylw at yr ymgynghoriad ac yn rhoi'r wybodaeth a nodir yn is-baragraff (iii) uchod, at rai neu bob un o'r papurau hyn, gyda'r dewis yn adlewyrchu ardal weithredol y sefydliad. Bydd y Bwrdd yn darparu eu henwau a'u cyfeiriadau.
- (vii) Bydd y Bwrdd yn rhoi rhestr i bob sefydliad o'r rheiny y dylid ymgynghori â nhw drwy anfon copi o'r cynllun drafft atynt. Bydd y Bwrdd, hefyd, yn darparu rhestr o'r rheiny y dylai sefydliadau ystyried ymgynghori â nhw. Mae'r rhestri hyn yn cynnwys y rheiny y mae eu diddordeb mewn gwasanaeth neu broffesiwn neilltuol yn ogystal â grwpiau sydd â'u diddordeb yn yr iaith Gymraeg.
- (viii) Bydd angen i sefydliadau ystyried dulliau eraill o ymgynghori â'r cyhoedd hefyd, fel cysylltu â gorsafoedd radio lleol, rhoi copïau o'r cynllun drafft yn eu swyddfeydd lleol, mewn llyfrgelloedd neu feddygfeydd, amgau taflen gyda gohebiaeth a dogfennau, a thrwy ddefnyddio hysbysfyrddau neu sgrîn electronig. Bydd cynnal cyfarfodydd cyhoeddus hefyd yn briodol i rai sefydliadau.
- (ix) Bydd sefydliadau am ystyried hefyd sut y dylent ymgynghori â'u staff, ac a ddylent ymgynghori ag eraill fel grwpiau gwirfoddol a all fod ar eu rhestr ymgynghori sefydlog.
- (x) Mae'n bosib y bydd sefydliadau am anfon copïau i gyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal, neu i sefydliadau sy'n darparu'r un gwasanaethau neu'n yr un maes. Dylent gadw mewn cof, serch hynny, mai'r nod yw "sichrau sylwadau i gynrychioli aelodau Cymraeg ac aelodau eraill o'r cyhoedd y gall y cynllun effeithio arnynt", ac nid i gael barn sefydliadau cyhoeddus eraill.

1.32 Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd angen i sefydliadau ddarparu adroddiad i'r Bwrdd ar y sylwadau a wnaed gan y cyhoedd yng Nghymru. Bydd gofyn i'r adroddiad hwn grynhoi sut yr



ymgynghorwyd â'r cyhoedd, a sawl copi o'r cynllun a ddosbarthwyd, a phwy gafodd gopi. Dylai hefyd ddadansoddi'r rhai a wnaeth sylwadau, a dadansoddi a chategoreiddio eu barn. Fe all y Bwrdd ofyn am gopi o'u sylwadau. Bydd angen i'r adroddiad ddod i gasgliadau ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'w gwneud i'r cynllun yn sgîl ymgyngori â'r cyhoedd. Bydd yn ddoeth cynllunio a chydlynu'r ymgyngoriad, felly, mewn modd fydd yn hwyluso'r gwaith o gasglu'r adroddiad at ei gilydd a'i ysgrifennu. Er enghraifft, efallai y bydd sefydliadau am ystyried rhoi "ffurflen" ddwyieithog safonol gyda phob copi o'r cynllun, gan wahodd y cyhoedd i roi eu sylwadau arni. Dylid cadw cofnod o gyfarfodydd cyhoeddus a thrafodaethau. Fe all y Bwrdd ofyn i sefydliad ymgyngori â'r cyhoedd eilwaith os yw'n gweld nad yw wedi ymgyngori'n iawn fel a gytunwyd.

- 1.33 Dylid cadw digon o amser wrth gefn ar ddiwedd yr ymgyngoriad i ddadansoddi'r sylwadau, i ystyried ac (os oes angen) i wneud newidiadau i'r cynllun drafft, i roi'r adroddiad i'r Bwrdd at ei gilydd (gan adael amser i gyfieithu), ac i ddilyn unrhyw brosesau rhoi caniatâd o fewn y sefydliad, fel bod modd cyflwyno'r adroddiad a'r fersiwn drafft terfynol o'r cynllun i'r Bwrdd erbyn y dyddiad a gytunwyd ar ddechrau'r broses.

Cymeradwyo cynlluniau

- 1.34 O dderbyn cynllun drafft terfynol ac adroddiad y sefydliad, bydd y Bwrdd yn ystyried p'un ai i gymeradwyo'r cynllun ai peidio drwy ddefnyddio'r dull o weithredu a nodir ar ddechrau Rhan II y ddogfen hon. Bydd am sicrhau, hefyd, bod fersiynau Cymraeg a Saesneg y cynllun yn gyson â'i gilydd. Os na fydd y Bwrdd wedi'i fodloni, bydd yn trafod y cynllun gyda'r sefydliad ac yn ceisio cael diwygiadau priodol.
- 1.35 Os yw cynllun yn ymddangos yn foddhaol i'r Bwrdd, naill ai fel y'i cyflwynwyd neu gyda diwygiadau diweddarach, bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r cynllun ac yn hysbysu'r sefydliad o'i benderfyniad yn ysgrifenedig, gan nodi dyddiad gweithredol rhoi'r gymeradwyaeth. Bydd hyn yn rhoi caniatâd i'r sefydliad gyhoeddi ei gynllun yn y ffurf a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae'r ffurf wedi ei disgrifio yn Rhan II y ddogfen hon.

Anghytundeb

- 1.36 Mae adran 14 y Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer delio â sefyllfaoedd pan na fydd y Bwrdd a sefydliadau yn gallu cytuno ar gynnwys cynlluniau, neu pan fydd sefydliadau wedi methu â chyflwyno eu cynlluniau i'r Bwrdd i'w cymeradwyo erbyn y dyddiad a gytunwyd. Yn y ddau achos, gellir cyfeirio'r mater i'r Ysgrifennydd Gwladol.
- 1.37 Fe all yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i'r Bwrdd a'r sefydliad unwaith eto geisio dod i gytundeb ar delerau'r cynllun cyn dyddiad a bennir ganddo. Ar y llaw arall, fe all yr Ysgrifennydd Gwladol ei hunan benderfynu ar delerau cynllun y sefydliad.



Y fframwaith o ganllawiau, cyngor a mesurau

Yn rhan hon y ddogfen, mae'r Bwrdd yn nodi'r canllawiau ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau a gyhoeddir o dan adran 9 y Ddeddf. Gyda phob canllaw mae cyngor sy'n perthyn iddo, a gyhoeddir o dan adran 3 y Ddeddf. Mae'r cyngor yn cynnwys rhestr o fesurau i gynorthwyo sefydliadau i baratoi a chyflwyno eu cynlluniau yn seiliedig ar y canllawiau.

Mae'r canllawiau a'r cyngor gyda'i gilydd yn dweud pa faterion y dylai sefydliadau eu hystyried a'r mathau o fesurau y dylent eu cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn y Ddeddf. Fel yr eglurwyd eisoes, nid yw hyn yn golygu wedyn y bydd pob canllaw, adran o gyngor neu fesur yn berthnasol i bob sefydliad. Os bydd sefydliadau yn bwriadu peidio â chynnwys pob mesur, fodd bynnag, bydd gofyn iddynt ddangos, am bob mesur na chaiff ei gynnwys, pam na fyddai'n "briodol o dan yr amgylchiadau" a "rhesymol ymarferol" iddynt gynnwys y mesur hwnnw.

O'i ran ef, bydd y Bwrdd wrth ystyried cynlluniau yn rhoi sylw dyledus i natur, maint, lleoliad a gweithgareddau pob sefydliad, a'i berthynas â'r cyhoedd yng Nghymru. Felly, ar gyfer pob cynllun a gynigir, bydd y Bwrdd yn ystyried amgylchiadau'r sefydliad er mwyn penderfynu pa ganllawiau sy'n berthnasol, ac a yw'r mesurau a gynigir yn dderbyniol. Wrth wneud hyn, bydd yn cael ei arwain gan y prawf o'r hyn sy'n "briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol" a nodir yn adran 5(2) y Ddeddf.

Er mwyn cynorthwyo'r rheiny sy'n ymwneud â'r gwaith o baratoi cynlluniau iaith, dangosir y canllawiau, a'r cyngor a'r mesurau cysylltiedig gyda'i gilydd yn y paragraffau canlynol.



CANLLAW
1

Dylid cyflwyno'r cynllun yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ar ffurf sy'n addas i'w chyhoeddi i aelodau'r cyhoedd y mae'r sefydliad yn delio â hwy.

CYNGOR Dylai'r cynllun gael ei gyhoeddi yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn yr un ddogfen. Dylid ei gyflwyno ar ffurf sy'n addas i'w rhoi i aelodau'r cyhoedd. I rai sefydliadau, gall maint y ddogfen olygu y byddant am gyhoeddi crynodeb o'r cynllun hefyd. Trafodir hynny eto yn y Cyngor ar adran 12(2)(b) y Ddeddf mewn rhan arall o'r ddogfen hon.

MESURAU

Dylai'r cynllun fod ar ffurf dogfen ddwyieithog, sy'n addas i'w chyhoeddi, ac wedi'i chyflwyno fel hyn:

- (1) Dylai clawr y ddogfen gynnwys enw'r sefydliad a'r geiriau "Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993".
- (2) Dylai'r wyneb-ddalen gyntaf gynnwys datganiad sy'n cadarnhau, fel y bo'n gymwys:
 - (i) (yn achos cyrff cyhoeddus) - bod y cynllun wedi derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd o dan adran 14(1) y Ddeddf, gan nodi dyddiad y gymeradwyaeth honno; neu,
 - (ii) (yn achos cyrff cyhoeddus) - bod y cynllun wedi ei benderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 14(5) y Ddeddf, gan nodi dyddiad y gymeradwyaeth honno, ac esbonio pam na chymeradwywyd y cynllun gan y Bwrdd; neu,
 - (iii) (yn achos adrannau'r llywodraeth a chyrrff y Goron) - bod y cynllun wedi ei baratoi yn unol ag adran 21(3) y Ddeddf, a naill ai
 - ◆ wedi derbyn sêl bendith llawn y Bwrdd, gan nodi dyddiad y sêl bendith hwinnw, neu,
 - ◆ wedi ei fabwysiadu gan y sefydliad (gan nodi'r dyddiad) heb dderbyn sêl bendith llawn y Bwrdd, gan esbonio'r rheswm dros hynny.
 - (iv) Os yw'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r cynllun o dan adran 14(1), neu wedi rhoi ei sêl bendith yn llawn o dan adran 21, dylai'r sefydliad hefyd ddangos logo'r Bwrdd yn union o dan y datganiad. Os nad yw'r cynllun wedi ei gymeradwyo neu wedi derbyn sêl bendith gan y Bwrdd, ni ellir atgynhyrchu logo'r Bwrdd yn y ddogfen.
- (3) Ar ddechrau'r ddogfen, dylid hefyd wneud datganiad sy'n cydnabod yr egwyddor o gydraddoldeb yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 trwy gyfrwng y geiriau:

"Mae (enw'r sefydliad) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus [a gweinyddu cyfiawnder *] yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd (enw'r sefydliad) yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru."

[* y geiriau mewn cromfachau sgwâr i'w cynnwys pan fo'n berthnasol.]
- (4) Dylai'r ddogfen gynnwys adran ragarweiniol sy'n disgrifio natur, maint, lleoliad, cyfrifoldebau a gweithgareddau'r sefydliad.



- (5) Dylai hyn gael ei ddilyn gan adrannau sy'n nodi'n eglur ac yn fanwl y mesurau i'w cymryd gan y sefydliad er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a nodir yn y Ddeddf, wedi eu cyflwyno yn nhrefn canllawiau'r Bwrdd.
- (6) Dylai'r ddogfen gynnwys unai crynodeb ar wahân o'r mesurau i'w cymryd gydag amserlen ar gyfer gweithredu pob mesur, neu dylid rhoi dyddiad gweithredu wrth bob mesur yn (5) uchod.
- (7) Yn olaf, dylai'r ddogfen esbonio gyda phwy yn y sefydliad y gellir cysylltu ynglŷn â'r cynllun, a sut y gellir cysylltu â hwy.

CYNNWYS Y CYNLLUNIAU

CYFFREDINOL

Dylai'r cynllun bennu'r mesurau y bwriada'r sefydliad eu cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn adran 5 y Ddeddf, a'r ffordd y bwriada'r sefydliad weithredu pob mesur.

CANLLAW
2

Dylai cynllun iaith fod yn fwy na pholisi; dylai fod yn strategaeth neu gynllun gweithredol fydd yn cynnwys ymrwymadau polisi clir, a disgrifiadau o'r camau i'w cymryd a'r trefniadau i'w gwneud i weithredu'r ymrwymadau hyn a'u harolygu. Felly, dylai'r mesurau a bennir yng nghynllun unrhyw sefydliad, o'u cysylltu ag amserlen a'u cymryd gyda'i gilydd, fod yn strategaeth gynhwysfawr ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb.

CYNGOR

Cyfrinach darparu gwasanaeth safonol drwy gyfrwng y Gymraeg yw gwneud yr iaith yn rhan naturiol, gyfannol o gynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth hwnnw. Bydd dull cyfannol yn dwyn ffrwyth mewn nifer o ffyrdd, ac yn sicrhau felly o ran boddhad y cyhoedd ac effeithlonrwydd gweinyddol ac ariannol.

Dylid cyflwyno'r cynllun fel strategaeth neu gynllun gweithredol sy'n cynnwys mesurau sydd:

MESURAU

- ◆ yn gwneud datganiadau polisi sy'n gyson â'r egwyddor o gydraddoldeb;
- ◆ yn nodi bwriadau dros gyfnod hwy os na ellir gweithredu ymrwymadau polisi yn llawn neu os nad yw gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ar unwaith;
- ◆ yn disgrifio'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg;
- ◆ yn disgrifio'r trefniadau i gynllunio, darparu a gweinyddu y gwasanaethau hynny;
- ◆ yn gosod fframwaith gweithredol ac arolygol i'r cynllun;
- ◆ yn cynnwys amserlen ar gyfer gweithredu'r cynllun bob yn fesur.



CANLLAW
3

Dylai'r cynllun bennu'r mesurau y bwriadau sefydliad eu cymryd pan mae'n asesu effaith polisiau a mentrau newydd ac yn eu gweithredu.

CYNGOR Bydd angen i sefydliadau sicrhau, pan gaiff polisiau a mentrau newydd eu llunio, bod eu canlyniadau ieithyddol yn cael eu hasesu. Dylai polisiau a mentrau newydd fod yn gyson â'r mesurau sydd yn y cynllun a dylent hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosibl. Yn wir, mae'r gofyniad i weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn y Ddeddf yn ei gwneud yn angenrheidiol i sefydliadau achub ar bob cyfle a gynigir gan bolisiau a mentrau newydd i wneud hynny. Felly, dylai sefydliadau sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n gweithio ar lunio polisiau yn ymwybodol o'u cynllun, ac yn talu sylw iddo. Mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol hefyd i sefydliadau sy'n ymarfer swyddogaethau statudol fydd yn dylanwadu ar weithgareddau sefydliadau eraill, megis personau eraill sy'n gweithredu fel gwas neu asiant i'r Goron neu gyrff cyhoeddus eraill. Maent yn cymhwyso i fwriadau a darpariaethau sy'n codi o ddeddfwriaeth, gan gynnwys rheoliadau, cylchlythyrau, cyngor a chanllawiau.

Fe all fod yn briodol i fabwysiadu cyfarwyddyd sefydlog y dylai papurau sy'n cyflwyno cynigion newydd i'w cymeradwyo gynnwys asesiad o'r effaith debygol a gânt ar gynllun y sefydliad ac, os yn berthnasol, ar allu sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Dylai sefydliadau, hefyd, sicrhau bod y mesurau sy'n gynnwysedig yn y cynllun yn cael eu cymhwyso i bolisiau a mentrau newydd pan gânt eu gweithredu.

MESURAU

- ◆ Ymrwymiad i asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiau a mentrau newydd wrth eu llunio.
- ◆ Ymrwymiad y bydd polisiau a mentrau newydd:
 - yn hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosib;
 - yn symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau bod polisiau a mentrau newydd yn gyson â'r cynllun, a dim yn ei danseilio.
- ◆ Ymrwymiad i ymgynghori â'r Bwrdd ymlaen llaw ynglŷn â bwriadau fydd yn effeithio ar y cynllun, neu fydd yn effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill.
- ◆ Ymrwymiad i beidio â newid y cynllun heb gytundeb y Bwrdd.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n llunio polisiau yn ymwybodol o'r cynllun iaith a chyfrifoldebau'r corff o dan y Ddeddf.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau y bydd mesurau'r cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiau a mentrau newydd ar waith.
- ◆ Disgrifiad o'r trefniadau a wneir i weithredu'r ymrwymadau hyn.



Dylai'r cynllun bennu sut y mae'r sefydliad yn bwriadu darparu'r gwasanaethau penodol y mae'n gyfrifol amdanynt, (er enghraifft - addysg, gofal iechyd neu wasanaethau cymdeithasol) drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o hyn, dylai ddisgrifio sut mae'n bwriadu cynllunio a threfnu ei wasanaethau er mwyn cymryd anghenion siaradwyr Cymraeg i ystyriaeth. Bydd ei gasgliadau yn dibynnu ar yr ardal mae'n ei gwasanaethu ac ar natur ei wasanaethau. Bydd angen i sefydliadau aml-wasanaeth, fel awdurdodau lleol, ystyried a oes angen cynlluniau a threfniadau gwahanol o wasanaeth i wasanaeth.

CYNGOR

Bydd rhai sefydliadau yn medru cyflwyno gwasanaethau dwyieithog yn naturiol a chyflawn ar draws y sefydliad. Bydd eraill angen trefniadau mwy penodol, ac mae'r canlynol yn enghreifftiau y dylai sefydliadau eu hystyried yn ôl eu hamgylchiadau:-

- sefydlu tîm ar wahân o fewn y gwasanaeth i gyflwyno gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg;
- sefydlu tîm arbenigol i gefnogi'r rheiny sy'n cyflwyno gwahanol wasanaethau'r sefydliad i'r cyhoedd;
- trefnu'r tîm gwasanaeth fel bod staff sy'n siarad Cymraeg yn medru delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg;
- galluogi swyddogion sy'n siarad Cymraeg o un swyddfa ranbarthol i gynorthwyo swyddfa arall pan gwyd yr angen;
- rhannu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg gyda sefydliadau cyfagos sy'n darparu'r un gwasanaethau, neu brynu'r gwasanaeth ganddynt;
- mabwysiadu gweithdrefnau neu systemau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn newis iaith y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth;
- sefydlu gwasanaeth peripatetig i siaradwyr Cymraeg;
- cyflogi cyfieithwyr allanol proffesiynol.

Fe all fod angen trefniadau ar wahân i wasanaethau gwahanol, neu i swyddfeydd gwahanol. Bydd y modd y trefnir gwasanaethau'n dibynnu ar eu natur, ar broffil ieithyddol y cyhoedd sy'n eu derbyn, ac ar argaeledd a lleoliad siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad. Dylai'r nod fod yn un o ddarparu gwasanaeth yn newis iaith y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth. Fe all fod angen i'r trefniadau ddatblygu wrth i'r cynllun gael ei weithredu.

Mae'r Bwrdd yn bwriadu cyhoeddi cyngor pellach, fel y bo'r angen, ar ddarparu rhai gwasanaethau penodol, i gynorthwyo gyda pharatoi'r cynlluniau. Hefyd, efallai y bydd y Bwrdd yn cymryd y dewis sydd yn y Ddeddf i fynnu bod sefydliadau yn paratoi cynlluniau ar wahân ar gyfer gwahanol wasanaethau.

Mae gan rai sefydliadau gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ond nid ydynt yn cyflwyno rhai neu'r cyfan o'r gwasanaethau hynny eu hunain yn uniongyrchol. Rhain yw'r sefydliadau sy'n ymarfer swyddogaethau statudol, fel adrannau'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus gyda chyfrifoldebau goruchwyllo, cyllido neu reoleiddio. Fe all fod y gwasanaethau'n cael eu cyflwyno gan gyrff cyhoeddus eraill neu gan "bersonau sy'n gweithredu fel gweision neu asiantau i'r Goron" eraill, megis asiantaethau a rheoleiddwyr i'r llywodraeth. (Fe all, hefyd, mai cyrrff gwirfoddol neu gwmnïau preifat sy'n eu cyflwyno - ar gyfer yr



amgylchiadau hynny, dylid cyfeirio at y Cyngor o dan Ganllaw 8(v)). Bydd y mesurau y dylai'r sefydliadau hyn eu cymryd yn dibynnu ar eu cyfrifoldebau a'u gweithgareddau, natur eu perthynas gyda'r parti sy'n cyflwyno'r gwasanaeth, a natur y gwasanaeth hwnnw. O safbwynt cyrff cyhoeddus neu gyrff y Goron, maent yn debygol o gynnwys un neu fwy o'r mesurau canlynol:

- anogaeth iddynt ymateb yn gadarnhaol i'r Ddeddf, ac i baratoi a gweithredu cynlluniau;
- eu galluogi i weithredu'r ymrwymadau a wneir yn eu cynlluniau;
- symud rhwystrau sy'n nadu iddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, fel newid ffurflenni rhagnodedig, newid rheoliadau, rheolau neu weithdrefnau, neu ganiatau i wasanaethau gael eu trefnu a'u cyflwyno mewn modd sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan sefydliadau a chan y cyhoedd;
- cynnwys mesurau ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg mewn cynlluniau gwasanaeth, contractau gwasanaeth, canllawiau arfer da a dogfennau eraill sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod sefydliadau yn rheolaidd yn wynebu'r angen i newid y ffordd y byddant yn darparu eu gwasanaethau er mwyn cydynd â pholisïau newydd gan y llywodraeth neu ddisgwyliadau'r cyhoedd, neu i hwyluso eu polisïau a'u syniadau eu hunain. Fodd bynnag, ni ddylai hyn arwain at gynigion a fydd, wrth chwilio am hyblygrwydd, yn brin o eglurder a phendrantrwydd. Pan fydd newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol yn effeithio'n weladwy ar gynlluniau, gall sefydliadau gynnig diwygiadau o dan adran 16 y Ddeddf. Bydd y Bwrdd yn ystyried pob cynnig yn ôl ei rinweddau.

MESURAU

- ◆ O safbwynt gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd yng Nghymru gan y sefydliad ei hunan, disgrifiad o sut y bydd y sefydliad yn trefnu a darparu'r gwasanaethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'r Cyngor uchod.
- ◆ O safbwynt gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd yng Nghymru gan sefydliadau eraill, disgrifiad o'r camau y mae'r sefydliad yn bwriadu eu cymryd i oruchwylio, annog, galluogi, hwyluso, neu gefnogi defnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno'r gwasanaethau hynny.

CANLLAW 5

Dylai'r cynllun bennu pa safonau ansawdd y dylid eu cyrraedd wrth gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys talu sylw i egwyddorion Siarter y Dinesydd a gyflwynwyd i'r Senedd ar 22 Gorffennaf 1991.

CYNGOR

Dylai fod ymrwymiad cadarn drwy'r sefydliad i gyflwyno gwasanaeth yr un mor safonol yn y ddwy iaith. Dylid datgan yr egwyddor ganolog hon mewn dogfennau allweddol fel cynlluniau corfforaethol a busnes ac adroddiadau blynyddol, yn ogystal ag yn y cynllun ei hun. Dylid ei ddatgan hefyd ar hysbysebion swyddi, mewn dogfennau personél ac mewn sefyllfaoedd eraill lle gwneir datganiadau ynglŷn â chyfle cyfartal a safon gwasanaeth. Mae egwyddorion Siarter y Dinesydd, hwythau, hefyd yr un mor gymwys i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ag yn Saesneg.



Dylai sefydliad osod, cyhoeddi, ac arolygu'n gyson safonau penodol iddo'i hun ar gyfer darparu gwasanaeth a delio â'r cyhoedd yn Gymraeg. Dylai safonau o'r fath er enghraifft gynnwys bod â'r un amserlen ar gyfer ateb gohebiaeth neu brosesu ceisiadau yn Gymraeg ag yn Saesneg. Trafodir hyn ymhellach yn y cyngor ar gyfer Canllawiau 8(vii) ac 8(viii).

Dylai sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau mewn gwahanol rannau o Gymru sicrhau cysondeb yn safon y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. Tra gall y graddau y bydd sefydliad yn delio â'r cyhoedd yn Gymraeg amrywio rhwng ardaloedd, ni ddylai ansawdd eu gwasanaeth amrywio.

- ◆ Ymrwymiad y sefydliad i gyflwyno gwasanaeth mor safonol yn Gymraeg ag yn Saesneg.
- ◆ Ymrwymiad i ddatgan hyn yn gyhoeddus a disgrifiad o ble a sut y gwneir y datganiad hwn.
- ◆ Ymrwymiad i gymhwyso egwyddorion Siarter y Dinesydd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg fel yn Saesneg.
- ◆ Ymrwymiad i osod safonau penodol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaeth a delio â'r cyhoedd.
- ◆ Ymrwymiad i arolygu'r safonau hynny, yn ogystal ag arolygu eu gweithredu.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau cysondeb safon y gwasanaethau yn Gymraeg a ddarperir gan y sefydliad mewn gwahanol ardaloedd.

MESURAU

DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Dylai'r cynllun bennu pa fesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt gohebu â'r cyhoedd.

CANLLAW
6(i)

Dylai sefydliadau groesawu llythyrau a gohebiaeth ysgrifenedig arall yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Er mwyn i'r neges hon fynd ar led, gellir gwneud datganiad cryno ar bapur swyddogol a chyhoeddiadau sy'n cadarnhau y croesawir cysylltiad yn y ddwy iaith. Pan fydd y cyhoedd yn dewis defnyddio'r Gymraeg, dylid delio â gohebiaeth fel a ganlyn:

CYNGOR

- Ni ddylai gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun arwain at oedi;
- Dylai llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg dderbyn ateb yn Gymraeg wedi ei lofnodi, pryd bynnag y bydd angen ateb;
- Pan fydd sefydliad yn cychwyn gohebiaeth, ar ôl siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg, dylai wneud hynny yn Gymraeg os na fydd yr aelod o'r cyhoedd wedi gofyn fel arall;
- Pan fydd sefydliad yn cychwyn gohebu, dylai wneud hynny'n ddwyieithog os nad yw iaith y sawl sy'n derbyn y llythyr yn wybyddus;



- Dylid cychwyn gohebiaeth yn Gymraeg â'r rheiny y mae'n wybyddus ei bod yn well ganddynt ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Dylid cyhoeddi cylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Gall gohebu gynrychioli prif ddull sefydliadau o ddelio â phobl. Wrth ohebu, bydd pobl yn aml yn rhoi eu buddiannau yn nwylo'r sefydliad. Felly, mae'n hanfodol rhoi blaenoriaeth uchel i unrhyw waith cyfieithu angenrheidiol. Ni ddylid gosod dyddiad olaf gwahanol ar gyfer ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg i'r un a osodir ar gyfer ymateb i ohebiaeth yn Saesneg. Er mwyn cyrraedd y lefel hon o berfformiad, dylai'r trefniadau ar gyfer delio â gohebiaeth gynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer trin dogfennau yn Gymraeg. Dylai sefydliadau ystyried mabwysiadu'r dull canlynol o weithredu:

- Dylai'r staff sy'n gyfrifol am dderbyn post a negeseuon ffacs sicrhau fod gohebiaeth Gymraeg yn cael ei dosbarthu at bwrpas ymateb iddi yr un mor brydlon ag y gwneir gyda deunydd Saesneg. Os na all y staff hynny ddarllen Cymraeg eu hunain, dylent ymgynghori â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, neu dylid copïo neu ffacio'r ohebiaeth i gyfieithydd i gael cyngor ar y cynnwys, er mwyn galluogi cymryd penderfyniadau prydlon a phriodol ar ddsbarthu a chyrchfan;
- Yna dylai'r ohebiaeth Gymraeg gyrraedd ei chyrchfan yn y sefydliad cyn gynted â phosib, ynghyd ag unrhyw gyngor ar gynnwys neu gyfieithiad sydd eisoes wedi ei dderbyn;
- Wrth ystyried yr angen i gomisiynu cyfieithiad i'r Saesneg, dylid cadw'r canlynol mewn cof:
 - gallu ieithyddol yr aelod o'r staff (a chydweithwyr) sy'n trin gohebiaeth;
 - i ba raddau y mae'r ohebiaeth yn fanwl ac yn anodd;
 - a oes angen cyfieithiad i'r Saesneg fel cofnod;
- Dylid ystyried darparu cyfarwyddiadau a threfniadau sefydlog i'r staff ar gyfer cael cyfieithiad o ohebiaeth a aiff i mewn ac allan, er mwyn symleiddio a chyflymu awdurdodi, ac osgoi cyfieithiadau diangen;
- Dylid rhoi terfynau amser i gyfieithwyr fydd yn galluogi'r sefydliad i gwrdd â'i dargedau ymateb. Pryd bynnag y bydd hynny'n bosib ac yn angenrheidiol, dylai'r rheiny sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu sefydlu cyswllt ffacs, e-mail neu fodem gyda'r sefydliad, a thrwy hynny arbed amser gwerthfawr wrth gadw at yr amserlen yma;
- Pan fydd cyfieithiadau'n cael eu hail-deipio gan y sefydliad, dylid cymharu'r gwaith gyda fersiwn y cyfieithydd i sicrhau cywirdeb neu ofyn i'r cyfieithydd wneud hynny;
- Dylai fod modd i staff sy'n delio â gohebiaeth i'w anfon allan gael cymorth a modd i sicrhau cywirdeb ieithyddol. Efallai y bydd gan sefydliadau ddiddordeb mewn gosod "CySill" - y meddalwedd gwiro sillafu - sydd ar gael gan y Bwrdd;
- Pan fydd staff nad ydynt yn deall Cymraeg yn llofnodi llythyrau o natur sensitif neu gytundebol, efallai y byddant am anfon fersiwn Saesneg hefyd.

Dylai trefniadau fel hyn leihau oedi, sicrhau safon, a chadw costau cyfieithu diangen i leiafswm. Bydd angen i sefydliadau eu teilwrio i gyfateb â'u hamgylchiadau eu hunain. Trafodir mwy ar wasanaethau cyfieithu o dan Ganllaw 8(iv).

Gellir sefydlu cronfa-ddata er mwyn cofnodi manylion y rhai sy'n dymuno delio â'r sefydliad yn Gymraeg. Gellir cysylltu hyn, drwy ddull o godio cyfrifiadurol, â ffurflenni a chyhoeddiadau eraill yn ogystal â gohebiaeth bersonol a chyffredinol. Hwyrach y bydd eraill, er enghraifft, teuluoedd cymysg eu hiaith, yn dymuno derbyn gohebiaeth ddwyieithog. Gall y math hwn o weithredu wella'n sylweddol ar y gwasanaeth Cymraeg y gall sefydliadau ei gynnig.



- ◆ Ymrwymiad i groesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau na fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau y bydd llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg wedi ei lofnodi.
- ◆ Ymrwymiad i gychwyn gohebu yn Gymraeg ar ôl siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg.
- ◆ Ymrwymiad i gychwyn gohebu yn Gymraeg gyda'r rheiny y mae'n wybyddus ei bod yn well ganddynt ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ◆ Ymrwymiad i gyhoeddi cylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- ◆ Disgrifiad o'r trefniadau a wneir yn unol â'r Cyngor uchod, fel bod yr ymrwymadau gohebu hyn yn cael eu gweithredu. Er enghraifft:-
 - rhoi canllawiau i staff;
 - gwneud trefniadau gwasanaeth cyfieithu;
 - sefydlu cronfeydd data o'r rheiny sy'n dymuno delio yn Gymraeg â'r sefydliad.

Dylai'r cynllun bennu pa fesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt cyfathrebu dros y ffôn gyda'r cyhoedd.

CANLLAW
6(ii)

Dylid croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg, fel sy'n digwydd yn Saesneg. Mae angen mabwysiadu dull o gyfleu hyn i'r sawl sy'n galw. Yn aml, galwad ffôn fydd y cyswllt cyntaf rhwng person â sefydliad. Efallai na fydd y rhai sy'n galw yn gwybod gyda phwy y maent yn siarad, a gallant fod yn ansicr ynglŷn â siarad Cymraeg. Felly mae angen croesawu a dod i'r arfer â defnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd hyn, a chynnig dewis iaith i'r sawl sy'n galw er nad yw staff sy'n cymryd yr alwad yn siarad Cymraeg eu hunain. Yr un pryd, mae angen trefn yn ei lle i drosglwyddo galwadau os nad yw'r sawl sy'n ateb y ffôn yn siarad Cymraeg.

CYNGOR

Er enghraifft, gall staff Cymraeg eu hiaith sy'n ateb galwadau ffôn, p'un ai fel cysylltwyr switsfwrdd neu wrth gymryd galwadau llinell uniongyrchol, fabwysiadu cyfarchiad byr yn Gymraeg (fel "Bore da") ac yna rhoi enw'r sefydliad yn ddwyieithog er mwyn ei gwneud yn amlwg i'r rhai fydd yn galw bod croeso iddynt siarad Cymraeg. Dylai defnyddio cyfarchiad o'r fath fod yn gyfrwng i ddangos eu gallu ieithyddol i'r sawl sy'n galw.

Dylai staff yng Nghymru nad ydynt yn siarad Cymraeg o leiaf roi enw'r sefydliad yn ddwyieithog. Pwrpas hyn yw cyfleu i'r sawl sy'n galw bod y sefydliad yn cynnig dewis iaith. Os yw'r sawl sy'n galw yn siarad yn Gymraeg, yna dylai staff esbonio na allant siarad Cymraeg eu hunain. Fodd bynnag, drwy siarad Cymraeg, mae'r sawl sy'n galw wedi nodi ei fod yn dewis delio â'r sefydliad yn Gymraeg, a dylid parchu hynny drwy gynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg neu drwy drefnu i siaradwr Cymraeg ffonio'n ôl cyn gynted â phosib. Os bydd hyn yn amhosibl, yna dylai'r sawl sy'n galw gael cynnig y dewis naill ai o barhau â'r alwad



yn Saesneg, neu i ysgrifennu at y sefydliad yn Gymraeg. Ni ddylid gwneud i'r rhai sy'n galw deimlo'n niwsans na chreu anghyfleustra iddynt am eu bod eisiau siarad Cymraeg.

Dylid ystyried y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ddelio â sefydliadau yn Gymraeg dros y ffôn:

- cyflogi cysylltwyr switsfwrdd dwyieithog, neu hyfforddi'r cysylltwyr switsfwrdd presennol i ddelio â galwadau a ddaw i mewn yn ddwyieithog;
- darparu naill ai gyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad y gellir trosglwyddo galwadau iddynt, neu nodi gallu ieithyddol yn y cyfeirlyfrau mewnol safonol;
- dosbarthu staff sy'n siarad Cymraeg mewn gweithleoedd sy'n derbyn galwadau gan y cyhoedd yn aml;
- rhoi canllawiau i'r holl staff ar ddelio â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod staff yn gyfarwydd â hwy;
- enwi staff sy'n gallu delio yn Gymraeg ar daflenni, ffurflenni neu gyhoeddiadau eraill;
- darparu llinell ffôn bwrpasol ("linell gymorth", er enghraifft) ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Mae i nodi siaradwyr Cymraeg ar lyfr ffôn mewnol y fantais ychwanegol o godi ymwybyddiaeth ymysg staff drwy'r sefydliad o gydweithwyr a all ddelio â'r cyhoedd yn Gymraeg. Yn amlwg, ni fydd bob amser yn bosibl trosglwyddo galwad i siaradwr Cymraeg sy'n gallu delio yn llawn ag ymholiad. Fodd bynnag, dylai sefydliadau geisio sicrhau bod modd i alwadau o leiaf gael eu trosglwyddo i siaradwyr Cymraeg sy'n gallu gweithredu fel cyswllt.

Os darperir llinell ffôn ar wahân, rhaid gwneud hynny'n hysbys ar daflenni, ar ben-llythyrau, ac ar ddeunydd arall, a'i rhoi yn y llyfrau ffôn.

Dylid hefyd gynnwys cyfarchiad a negeseuon dwyieithog ar beiriannau ateb.

MESURAU

- ◆ Ymrwymiad i groesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, ac i fabwysiadu dull o gyfleu dewis i'r sawl sy'n ffônio.
- ◆ Disgrifiad o'r trefniadau a wneir i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn unol â'r Cyngor uchod.

CANLLAW 6(iii)

Dylai'r cynllun bennu pa fesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt cyfarfodydd cyhoeddus (gan gynnwys gwrandawiadau, ymholiadau ag achosion cyfreithiol eraill).

CYNGOR

Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus (gan gynnwys gwrandawiadau, ymholiadau ag achosion cyfreithiol eraill), cynadleddau a digwyddiadau tebyg yng Nghymru, dylid egluro i'r rhai fydd yn bresennol y gallant, ac y bydd croeso iddynt, gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r



Saesneg. Wrth gwrs, fe fydd amgylchiadau lle bydd yn briodol cynnal yr holl weithgareddau yn ddwyieithog neu unai yn Gymraeg neu'n Saesneg.

O ystyried proffil uchel y digwyddiadau hyn, mae'n bwysig mabwysiadu dull o sefydlu dewis iaith wrth wneud y trefniadau. Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai a wahoddir neu os yw'n wybyddus fod siaradwyr Cymraeg am fynychu, dylid cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog. Pan fydd cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, rhaid cydnabod y gall fod yn anodd gwybod pa iaith fydd y mynychwyr yn dymuno ei siarad. Dylai sefydliadau sy'n tybio mai Saesneg fydd iaith y cyfarfod ystyried mabwysiadu'r trefniadau canlynol:

- dylai hysbysiadau cyhoeddus, gwahoddiadau a phapurau eraill sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer y digwyddiadau hyn ei gwneud yn glir fod croeso i'r cyhoedd gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg heb angen rhoi gwybod ymlaen llaw;
- fodd bynnag, gall hysbysiadau, gwahoddiadau a phapurau o'r fath wahodd y rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol i roi gwybod i'r trefnwyr ymlaen llaw os ydynt am siarad Cymraeg;
- dylai'r rhai fydd yn trefnu'r digwyddiad asesu a oes angen cyfleusterau cyfieithu, gan ystyried lleoliad y digwyddiad, pwy fydd yn debygol o fod yn bresennol a'r pwnc o dan sylw, ac ystyried a yw'r sefydliad wedi ei hysbysu o unrhyw un (neu'n ymwybodol o rywun) sy'n dymuno siarad Cymraeg;
- ar gychwyn y gweithgareddau yn ddyddiol, dylid unwaith eto wahodd unrhywun sy'n dymuno siarad yn Gymraeg i gysylltu â'r trefnwyr bryd hynny;
- os na ddarparwyd cyfleusterau cyfieithu, dylai fod yna drefniadau yn barod i gael cyfleusterau cyfieithu ar fyr rybudd ar gyfer mynychwyr nad ydynt yn ddwyieithog.

Pan fydd cyfarfodydd i'w cynnal yn Gymraeg, gellir defnyddio'r drefn uchod, ond gan wahodd cyfrannwyr di-Gymraeg i gysylltu â'r trefnwyr.

Fel arfer, dylid darparu cyfieithiad drwy gyfieithu ar y pryd yn hytrach na chyfieithu dilynol. Ffordd o gyfieithu o un iaith i'r llall tra bydd rhywun yn siarad yw cyfieithu ar y pryd. Drwy hynny mae'n bosibl cynnal cyfarfodydd gan ddefnyddio mwy nag un iaith heb wastraffu amser a heb i neb gael ei amddifadu o'r hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio. Mae angen offer cyfieithu, sy'n cynnwys ffôn clust a microffon i'r mynychwyr. Gellir prynu offer cyfieithu-ar-y-pryd, neu ei logi mewn llawer man gan gynnwys oddi wrth y Bwrdd. Dylai'r sefydliadau hynny y mae'n debygol y gwneir defnydd aml o'u hystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus lle siaredir Cymraeg a Saesneg, ystyried gosod cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd. Efallai y bydd rhai sefydliadau wedyn am hurio'r ystafelloedd hyn i eraill, neu am eu cynnig fel gwasanaeth i'r cyhoedd.

Nid yw cyfieithu dilynol yn gofyn am unrhyw offer arbennig, ond fe fydd cyfarfodydd yn cymryd mwy o amser. Bob yn hyn a hyn bydd y siaradwr, neu'r cyfieithydd, yn rhoi fersiwn lawn neu grynoded yn yr iaith arall.

Mae o gymorth os gall y cyfieithwyr dderbyn dogfennau ymlaen llaw a chael arweiniad, os yw'n bosibl, cyn i'r cyfarfod neu'r digwyddiad gael ei gynnal. Gallai hyn gynnwys papurau cefndir a phapurau'r cyfarfod a rhestr o'r rhai fydd yn bresennol er mwyn i gyfieithwyr gael digon o gyfle i ymbaratoi.

Mae'r angen i wneud trefniadau fel y rhai a ddisgrifir uchod yn cael ei danlinellu gan adran 22(1) y Ddeddf sy'n nodi:



“Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw llys ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn.”

Yn ogystal â chyfleusterau cyfieithu, dylai sefydliadau asesu'r angen i aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio â'u hymholiadau. Os na fydd gan y sefydliad staff ar gael sy'n siarad Cymraeg, dylai ystyried cyflogi gwasanaeth siaradwr Cymraeg yn benodol ar gyfer y cyfarfod. Fel arall, hwyrach y gall cyfieithydd gynorthwyo gyda dyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd cyhoeddus. Os bydd hyn yn digwydd yn aml, yna dylai'r sefydliad ystyried a fyddai'n fwy priodol iddo gyflogi aelod o staff ar gyfer y dyletswyddau hynny.

Dylai'r rheiny sy'n cynrychioli'r sefydliad wneud eu gallu ieithyddol yn glir wrth gyfarfod â'r cyhoedd (er enghraifft, drwy gyfarch pobl yn ddwyieithog a defnyddio bathodynau “Iaith Gwaith” y Bwrdd).

MESURAU

- ◆ Ymrwymiad i alluogi pobl sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus y sefydliad i gyfrannu gyda chroeso yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac i roi gwybod iddynt ymlaen llaw y gallant wneud hynny.
- ◆ Disgrifiad o'r trefniadau a wneir i wireddu'r ymrwymadau hyn yn unol â'r Cyngor uchod.

CANLLAW 6(iv)

Dylai'r cynllun bennu pa fesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a nodir yn y Ddeddf o safbwynt cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd.

CYNGOR

Dylai sefydliadau sicrhau bod y rheiny sy'n dymuno neu'n gorfod delio â hwy wyneb yn wyneb yn gwybod y gallant wneud hynny gyda chroeso yn Gymraeg fel yn Saesneg. Y ffordd fwyaf personol yn aml y bydd sefydliad yn delio â'r cyhoedd yw trwy gyfarfod wyneb yn wyneb, p'un a fydd hynny 'dros y cownter', 'yn y cartref' neu mewn rhywle arall. Yn wir, o dan amgylchiadau lle bydd pobl yn wynebu gofid, neu'n ddiameddiffyn, yn sâl neu'n anabl, gall peidio â chael cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf eu rhoi o dan anfantais bersonol. O ystyried natur sensitif llawer o'r trafodaethau hyn, mae'n bwysig cynnig dewis iaith pryd bynnag y bydd hynny'n bosib.

Bydd gofyn cael rhywfaint o hyblygrwydd yn y trefniadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth o sefyllfaoedd a all godi. Fodd bynnag, ymhob achos, dylai sefydliadau geisio gwneud trefniadau i ddarparu ar gyfer anghenion siaradwyr Cymraeg. Dylid ystyried hyn wrth wneud y trefniadau, a bydd hynny'n helpu i sicrhau bod y rhai sy'n bresennol yn gallu trafod materion yn Gymraeg, os ydynt am wneud hynny.

Dylid mabwysiadu y dewisiadau canlynol, a'r rhai a nodir yn y Cyngor o dan Ganllawiau 4 a 6(iii), fel sy'n briodol i bob sefydliad a sefyllfa:



- rhoi'r neges ar led, yn ysgrifenedig ac ar lafar, fod modd i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio mewn cyfarfodydd ac wrth drafod gyda'r sefydliad;
- cynnig dewis iaith bob tro y trefnir cyfarfod;
- cynnig darparu ar gyfer cyfarfod dwyieithog pan ragwelir y gall rhywun ddymuno siarad Cymraeg;
- bod â threfniadau parod i alluogi'r sefydliad i ymateb i geisiadau am gyfarfod yn Gymraeg;
- lleoli staff sy'n siarad Cymraeg mewn gweithleoedd lle mae aelodau Cymraeg o'r cyhoedd yn aml yn dymuno trafod materion gyda'r sefydliad (er enghraifft, gwasanaethau cownter, manau cynghori a dyletswyddau wrth dderbynfa);
- trefnu timau gwasanaeth fel y gall staff sy'n siarad Cymraeg ddelio â chlientau' sy'n siarad Cymraeg (er enghraifft, wrth ddarparu gofal iechyd neu roi cyngor personol).

Wrth gwrs, mae'r graddau y bydd hyn yn angenrheidiol yn amrywio o ardal i ardal ac o wasanaeth i wasanaeth. Fodd bynnag, bydd angen i'r cynllun nodi trefniadau ar gyfer cynnal trafodaethau yn Gymraeg. Bydd angen eu gwneud yn wybuddus i'r cyhoedd, a dylent fod yn hawdd i'r cyhoedd ar staff eu deall. Yn yr un modd ag mewn cyfarfodydd cyhoeddus, dylai'r rheiny sy'n cynrychioli'r sefydliad wneud eu gallu ieithyddol yn glir wrth fynychu "cyfarfodydd eraill" gyda'r cyhoedd. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn fach, os yw'n bosib mewn unrhyw ffordd, dylid gwneud trefniadau er mwyn galluogi'r rhai fydd yn dewis delio â sefydliadau yn Gymraeg i wneud hynny.

- ◆ Ymrwymiad i alluogi pobl sy'n dymuno neu'n gorfod delio â'r sefydliad wyneb yn wyneb, i wneud hynny gyda chroeso yn Gymraeg fel yn Saesneg, ac i roi gwybod iddynt ymlaen llaw y gallant wneud hynny.
- ◆ Disgrifiad o'r trefniadau a wneir yn unol â'r Cyngor uchod i wireddu'r ymrwymiad hwn, gan gynnwys trefniadau gwahanol yn ôl lleoliad neu fath o wasanaeth, os bydd angen.

MESURAU

Dylai'r cynllun bennu pa fesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill.

CANLLAW
6(v)

Mae Canllawiau 6(i) i 6(iv) uchod ar' cyngor sy'n gysylltiedig â hwy yn trafod dulliau o ddelio â'r cyhoedd sy'n gyffredin i bob sefydliad. Fodd bynnag, efallai y bydd sefydliadau unigol yn delio â'r cyhoedd yng Nghymru mewn ffyrdd mwy penodol, na chânt eu cwmpasu uchod. Er enghraifft, gallant ddelio â'r cyhoedd drwy ddefnyddio cyfathrebu cyfrifiadurol neu gysylltiadau teleffideo neu drwy ddefnyddio systemau cyfarch cyhoeddus. Ym mha fodd bynnag y byddant yn delio â'r cyhoedd yng Nghymru, dylai sefydliadau ystyried y ffyrdd gorau o gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg, a chynnwys darpariaethau yn eu cynllun ar gyfer hynny.

CYNGOR



MESURAU

- ◆ Ymrwymiad i ddelio yn Gymraeg gyda'r cyhoedd ac i alluogi pobl i ddelio yn Gymraeg gyda'r sefydliad drwy gyfathrebu cyfrifiadurol, cysylltiadau telefideo, neu gyfryngau eraill.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i wireddu'r ymroddiad hwn.

WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

CANLLAW 7(i)

Dylai'r cynllun bennu'r mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad yng Nghymru.

CYNGOR

Dylai sefydliadau fabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog gyflawn yng Nghymru. Mae hunaniaeth gorfforaethol yn cynnwys enw, cyfeiriad, logo, slogan corfforaethol, hunaniaeth weledol, ac unrhyw wybodaeth safonol arall o eiddo'r sefydliad a ddefnyddir ar ddeunydd a nwyddau'r sefydliad (megis ar bapur pennawd, papur ffacs, cardiau busnes, bathodynau adnabod, arddangosfa ac ar gyhoeddiadau), ac mewn amgylchiadau eraill megis ar arwyddion, cerbydau ac adeiladau.

Dylid darparu canllawiau i staff a dylunwyr i sicrhau y gweithredir yr egwyddor o gydraddoldeb yn gyson ar draws wyneb cyhoeddus y sefydliad. Dylai hyn estyn i gynnwys cyhoeddwr, asiantau, contractwyr ac eraill sy'n atgynhyrchu neu ddefnyddio delwedd gorfforaethol y sefydliad.

Bydd y Bwrdd yn cytuno dyddiad i gwblhau gweithredu'r nod hwn gyda phob sefydliad.

MESURAU

- ◆ Ymrwymiad i fabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru sy'n gyflawn ddwyieithog.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i wireddu'r ymrwymiad hwn o safbwynt enw'r sefydliad, ei gyfeiriad, ei logo, ei hunaniaeth weledol, ei slogan corfforaethol, ac unrhyw wybodaeth safonol arall.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yn unol â'r Cyngor uchod, sy'n cynnwys amserlen i wneud hynny.



Dylai'r cynllun bennu'r mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt:

- **arwyddion gwybodaeth o fewn ffiniau eiddo yng Nghymru y mae sefydliad yn berchen neu'n ddeiliad arno, gan gynnwys mannau mewnol lle mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt;**
- **arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill a leolir yng Nghymru, ac y mae sefydliad yn gyfrifol amdanynt.**

CANLLAW
7(ii) a 7(iii)

Dylai arwyddion gwybodaeth o fewn ffiniau eiddo'r sefydliad yng Nghymru, gan gynnwys mannau mewnol lle mae aelodau'r cyhoedd yn cael mynediad, fod yn gwbl ddwyieithog. Dylai arwyddion eraill (er enghraifft, arwyddion priffyrdd ac arwyddion gwybodaeth gyhoeddus) y mae'r sefydliad yn gyfrifol amdanynt, fod yn gwbl ddwyieithog.

CYNGOR

Dylai maint, safon, eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar arwyddion barchu'r egwyddor o gydraddoldeb. Pan gaiff arwyddion Cymraeg a Saesneg eu darparu ar wahân, dylent fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Dylai fod prosesau yn eu lle i sicrhau cywirdeb, a bydd angen cyd-lynu ac arolygu hyn yn ofalus, yn enwedig pan roddir y gwaith allan i gontract.

Bydd y Bwrdd am gytno ar amserlen ymarferol gyda phob sefydliad er mwyn cyrraedd y nod hwn, gan osod blaenoriaethau os oes angen hynny. Yn y cyfamser, dylai arwyddion yng Nghymru sy'n cael eu codi am y tro cyntaf neu'n cael eu newid fod yn hollol ddwyieithog.

- ◆ Ymrwymiad i ddarparu arwyddion gwybodaeth cwbl ddwyieithog o fewn ffiniau eiddo'r sefydliad yng Nghymru, gan gynnwys mannau mewnol lle mae aelodau o'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau y bydd arwyddion eraill (e.e. arwyddion priffyrdd a gwybodaeth gyhoeddus) y mae'r sefydliad yn gyfrifol amdanynt, yn gwbl ddwyieithog.
- ◆ Ymrwymiad y bydd maint, safon, eglurder ac amlygrwydd geiriau ar arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb.
- ◆ Ymrwymiad y bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, o'u darparu, yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i weithredu'r ymrwymadau hyn, gan gynnwys amserlen i'w cwblhau.

MESURAU



Dylai'r cynllun bennu'r mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt cyhoeddi a phrintio deunydd sydd wedi ei gyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru.

CYNGOR Gall y ffordd y bydd sefydliadau yn delio â chyhoeddiadau fod yn enghraifft weladwy o'u hymrwymiad i'r iaith Gymraeg ar Ddeddf.

Argymhellir y dylid delio â chyhoeddiadau fel a ganlyn:

- dylid cyhoeddi deunydd a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen;
- pan gyhoeddir dogfen â phris iddi yn ddwyieithog, ni ddylai ei phris fod yn uwch nag a fyddai wedi bod petai wedi ei chyhoeddi mewn un iaith;
- ni ddylai pris fersiwn Gymraeg unrhyw ddogfen fod yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.

Dylid cychwyn gyda'r bwriad o ddarparu dogfennau dwyieithog yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Fel arfer mae darparu deunydd dwyieithog yn haws yn weinyddol (o safbwynt rheoli a dosbarthu stoc) na darparu dogfennau Saesneg a Chymraeg ar wahân. Mae iddo hefyd fanteision yn nhermau cwrdd ag anghenion teuluoedd cymysg eu hiaith a chynulleidfaoedd cymysg eraill, a dysgwyr. Mae hefyd yn sicrhau ei bod yr un mor hawdd cael gafael ar y ddwy fersiwn o ddogfen, ac yn osgoi'r arfer annerbyniol o ddsbarthu dogfennau Saesneg gyda'r neges y bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei darparu o ofyn amdani - arfer sydd wedi derbyn beirniadaeth lem.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, oherwydd cost ac ymarferoldeb, derbynnir y bydd fersiynau ar wahân yn Saesneg ac yn Gymraeg yn rhywbeth na ellir ei osgoi. Os mai cyhoeddi ar wahân yw'r unig ddewis, dylid dosbarthu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un pryd a gyda'i gilydd, dylent fod yr un mor hawdd i'w cael, a dylai'r ddwy fersiwn gynnwys neges "Mae'r (daflen) hon ar gael hefyd yn (Saesneg)" a "This (leaflet) is also available in (English)". Pan ddsbarthir cyhoeddiadau felly trwy law, megis dros y cownter neu yn yr arddangosfa, dylid gofyn i'r cyhoedd pa fersiwn a hoffent ei chael. Dylid cyhoeddi yn ddwyieithog bob amser daflenni a deunydd arall sy'n cael ei ddsbarthu'n eang a chyffredinol.

Bydd angen i'r mesurau a nodir yn y cynllun adlewyrchu materion fel maint a natur y gynulleidfa darged, maint a natur y ddogfen a pha mor eang y bwriedir ei dosbarthu, cost, amseru, y galw tebygol, pwysigrwydd, gwerth am yr arian a materion eraill. Bydd hwn yn fater i bob sefydliad ei ystyried a'i gyflwyno yn ei gynllun. Bydd y Bwrdd eisiau gweld cymaint o sicrwydd â phosib yn y cynllun o safbwynt diffinio'r mathau neu'r categorïau hynny o gyhoeddiadau fydd yn ddwyieithog, a'r meini prawf a ddefnyddir gan y sefydliad i'w dewis a'u blaenoriaethu.

Gall rhai sefydliadau, yn arbennig cyrff y Goron sy'n gweithredu yng Nghymru, wynebu anawsterau wrth geisio cyhoeddi dogfennau ochr yn ochr â sefydliadau cyfatebol yn Lloegr. Fodd bynnag, y nod fan hyn yw y dylai sefydliadau gydweithio er mwyn sicrhau cyhoeddi fersiynau Saesneg a Chymraeg yr un pryd yn Lloegr (fersiwn Saesneg yn unig) ac yng Nghymru. Dylent rannu'r cyfrifoldeb i gynllunio a chyd-gysylltu er mwyn cyrraedd y nod hwnnw. Pan



fydd cyhoeddi yr un pryd yn amhosibl am resymau da, gellir ystyried y dewisiadau canlynol yn nhrefn blaenoriaeth, er eu bod yn llai na delfrydol:

- cyhoeddi dogfennau dwyieithog yng Nghymru yn ddiweddarach ond cyn gynted â phosibl. Dylid bod yn wylidwrus o'r dewis hwn pan fydd dogfennau'n gallu effeithio'n uniongyrchol ar fuddiannau unigolion. Os byddant o unrhyw fudd i unigolion, gallai pobl sy'n byw yn Lloegr fwynhau'r buddiannau hynny yn gyntaf, a gallai hyn arwain at feirniadaeth yng Nghymru. Gellid gweld beirniadaeth debyg mewn achosion lle byddai'r buddiannau'n cael eu cwtogi, os byddai hynny'n digwydd gyntaf yn Lloegr;
- cyhoeddi dogfennau Saesneg yr un pryd yn Lloegr a Chymru, ac yna gyfieithiad Cymraeg yn ddiweddarach. Fodd bynnag, nid yw'r dewis hwn yn golygu trin y ddwy iaith ar sail cydraddoldeb cyflawn. Felly, dim ond fel dewis olaf y dylid mabwysiadu'r ail ddewis hwn, a dim ond pan fydd y pryderon a amlinellwyd o dan y dewis cyntaf uchod yn gymwys mewn unrhyw achos arbennig.

Dylai sefydliadau sy'n gweithio mewn gwahanol rannau o Gymru ond sydd fel arall yn cyflawni'r un gwaith neu waith tebyg, ymchwilio i'r manteision o gydweithio wrth gynhyrchu deunydd dwyieithog i'w gyhoeddi. Mae'r manteision posibl yn nhermau cysondeb ac arbed costau, yn enwedig wrth gynhyrchu deunydd dwyieithog, yn amlwg ynddo'i hun.

Os nad oes gan sefydliadau staff sydd â'r sgiliau i ddarllen proflenni Cymraeg, dylid rhoi unrhyw gyhoeddiadau drafft i gyfieithwyr i'w cywiro. Bydd hyn, wrth gwrs, hefyd yn angenrheidiol o safbwynt ffurflenni, hysbysebion swyddi a deunydd arall i'w gyhoeddi neu i'w arddangos.

Argymhellir y dylai fod trefniadau a manylebau ysgrifenedig gan sefydliadau ar gyfer darparu a delio â chyhoeddiadau dwyieithog, sy'n eglur i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwr eu dilyn. Eu pwrpas ddylai fod i sicrhau y gellir darparu cyhoeddiadau dwyieithog o safon uchel, o fewn yr amserlen, mewn ffordd economaidd ac effeithiol. Dylent hefyd fod yn gyfrwng i sicrhau bod ymrwymiad y sefydliad i gydraddoldeb o ran safon ac amseru cyhoeddiadau yn Gymraeg a Saesneg yn cael ei weithredu'n gyson.

At ddiben y ddogfen hon, mae enghreifftiau o "gyhoeddiadau" yn cynnwys:

Adroddiadau blynyddol a chyfrifon	Hysbysebion marchnata	Papurau Gwyn
Cardiau	Llyfrynau a thafenni	Papurau Gwyrdd
Cod gweithredu	Mân-ddeddfau	Poster
Cyhoeddiadau ystadegol	Mapiau	Rheolau a rheoliadau
Cylchlythyrau	Nodiadau canllaw	Trefniadau
Dogfennau ymgynghorol	Offerynnau statudol	Tystysgrifau
Hysbysiadau cyhoeddus		

Dylid ystyried y cyngor uchod, hefyd, yng nghyd-destun mathau eraill o ddeunydd printiedig, p'un a ydynt wedi eu printio ar bapur neu ar unrhyw ddeunydd arall. Byddai hyn, er enghraifft, yn cynnwys y drwydded yrru ar ffurf cerdyn credyd â'r cerdyn yswiriant gwladol, cardiau donor, cardiau a bathodynau adnabod, nwyddau ag ysgrifen arnynt, a nwyddau eraill wedi'u hargraffu.



MESURAU

- ◆ Ymrwymiad i gyhoeddi neu brintio yn ddwyieithog unrhyw ddeunydd a anelir at y cyhoedd yng Nghymru, gyda thymbiaeth o blaid dogfennau unigol dwyieithog yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- ◆ Ymrwymiad, pan gyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, y cânt eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd, ac y byddant yr un mor hawdd i'w cael.
- ◆ Ymrwymiad, pan gyhoeddir dogfen ddwyieithog â phris arni, na fydd y pris yn uwch na fersiwn uniaith o'r un ddogfen.
- ◆ Ymrwymiad na fydd pris fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.
- ◆ Cadarnhad o'r mathau neu gategoriâu o gyhoeddiadau:
 - fydd yn ddwyieithog mewn un ddogfen;
 - a gyhoeddir yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân;
 - fydd yn fater i'w ystyried ar y pryd, gan gynnwys y meini prawf i'w defnyddio wrth benderfynu.
- ◆ Disgrifiad o'r trefniadau ar gyfer delio â fersiynau ar wahân o'r un ddogfen neu ddogfen gyffelyb yn Lloegr a Chymru, o ran cynllunio ymlaen, cyd-weithredu rhwng sefydliadau, amseru cyhoeddiadau, ac yn y blaen.
- ◆ Cadarnhad y bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn derbyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig ynglŷn â sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog.
- ◆ Ymrwymiad i ddarparu'n ddwyieithog unrhyw fath arall o ddeunydd printiedig ar bapur neu ar unrhyw ddeunydd arall.

CANLLAW 7(v)

Dylai'r cynllun bennu'r mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru.

CYNGOR

Dylai pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru fod yn gwbl ddwyieithog. Dylid gwneud hyn fel arfer drwy roi fersiynau y ddwy iaith gyda'i gilydd yn yr un ddogfen. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, (er enghraifft, oherwydd cymhlethdod y ffurflen) gallai fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân fod yn fwy priodol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg

- gael eu cyhoeddi yr un pryd, a
- dylent fod yr un mor rhydd i'w cael mewn swyddfeydd a manau dosbarthu eraill, a
- dylent fel arfer gael eu dosbarthu gyda'i gilydd (p'un ai 'yn y post' neu 'dros y cownter'), a
- dylent gynnwys neges (fel y nodir o dan Ganllaw 7(iv)) sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael hefyd yn yr iaith arall

er mwyn i'r cyhoedd allu derbyn, darllen a llenwi'r fersiwn o'u dewis. At hyn, dylai sefydliadau geisio sefydlu dewis iaith drwy gynnwys "cwestiwn dewis iaith" ar y ffurflen gyntaf mewn cyfres, drwy ofyn i'r cyhoedd cyn rhoi ffurflen dros y cownter, neu drwy ddulliau eraill. Pan fydd dewis iaith y sawl sy'n derbyn y ffurflen yn hysbys (wedi ei nodi ar gronfa ddata, er enghraifft) yna gellir dosbarthu y fersiwn Gymraeg neu Saesneg, neu'r ddwy, fel sy'n briodol.



Dylid dylunio ffurflenni gyda'r ddwy iaith mewn golwg. Dylai sefydliadau sy'n cynhyrchu ffurflenni i'w defnyddio yn Lloegr a Chymru gynllunio a chydlynu'r gwaith o'u cynhyrchu yn ofalus. Bydd hyn er mwyn sicrhau bod modd cynhyrchu fersiynau dwyieithog neu Gymraeg i'w defnyddio yng Nghymru, a'u bod ar gael ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg. Fe all hyn effeithio ar raglenni cyfrifiadurol os cynhyrchir ffurflenni gan gyfrifiadur. Pan ragnodir ffurflenni gan reoliadau, dylid datgan yn y rheoliad y gellir eu hatgynhyrchu yn Gymraeg, ac y byddant yr un mor ddilys yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Bydd y Bwrdd yn cytuno ar amserlen gyda phob sefydliad ar gyfer cyflwyno ffurflenni dwyieithog neu ffurflenni Cymraeg ar wahân sy'n cynnwys, lle bo angen hynny, addasiadau i raglenni cyfrifiadur a diwygiadau i ffurflenni a ragnodwyd gan statud.

Yn yr un modd â chyhoeddiadau, dylai sefydliadau gydag ardaloedd daearyddol ar wahân, ond sydd fel arall yn darparu yr un ffurflenni a deunydd esboniadol neu rai tebyg, ystyried cydweithio. Gellir defnyddio llawer o ffurflenni (er enghraifft, ffurflenni etholiadol, biliau, ceisiadau am drwyddedi a ffurflenni cais cynllunio) led led Cymru o wneud mân addasiadau iddynt. Drwy gynhyrchu rhain ar y cyd, mae modd osgoi dyblygu costau cyfieithu a chynhyrchu, a sicrhau cysondeb safon.

Cynghorir sefydliadau i roi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i staff ac eraill sy'n cynllunio a chynhyrchu ffurflenni.

- ◆ Ymrwymiad i ddarparu ffurflenni a deunydd esboniadol cwbl ddwyieithog ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, gyda thybjaeth o blaid fersiynau dwyieithog unigol.
- ◆ Ymrwymiad, pan ddarperir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân,
 - y cânt eu cyflwyno yr un pryd, ac
 - y byddant yr un mor rhwydd i'w cael, mewn swyddfeydd a manau dosbarthu eraill, ac
 - y cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd 'yn y post' neu 'dros y cownter', ac
 - y byddant yn cynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael hefyd yn yr iaith arall.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd a'r trefniadau i'w gwneud i weithredu'r ymrwymadau hyn yn unol â'r Cyngor uchod.

MESURAU

Dylai'r cynllun bennu'r mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt hysbysiadau i'r wasg i'w dosbarthu yng Nghymru.

CANLLAW
7(vi)

I nifer o sefydliadau, mae cyhoeddi hysbysiadau i'r wasg yn un o'r prif ddulliau o gyfathrebu â'r byd y tu allan. Maent wedi eu hanelu at y gynulleidfa gyhoeddus ehangaf sy'n bosib, gan gynnwys y wasg Gymraeg, gwasanaethau radio a theledu Cymraeg, ac eraill a allai fod â diddordeb uniongyrchol yn y pwnc. Mae'r wasg Gymraeg yn cynnwys papurau a

CYNGOR



chylchgronnau wythnosol a misol, ac mae eu hamserlenni argraffu yn golygu y gallant gynnwys hysbysiadau i'r wasg er bod erthyglau wedi ymddangos yn y wasg ddyddiol yn barod. Mae hysbysiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus sefydliadau, a dylid felly eu cyhoeddi yn ddwyieithog fel arfer.

MESURAU

- ◆ Ymrwymiad i ryddhau datganiadau a hysbysiadau i'r wasg ac i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog.

CANLLAW 7(vii), (viii), 7(ix) a 7(x)

Dylai'r cynllun bennu'r mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt:

- deunydd cyhoeddusrwydd i'w ddsbarthu yng Nghymru;
- ymgyrchoedd hysbysebu a deunydd arddangos wedi eu cyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru;
- deunydd a ddefnyddir ar gyfer ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yng Nghymru;
- dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyhoeddusrwydd yng Nghymru.

CYNGOR Mae gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd, yn eu hanfod, yn rhan gyhoeddus iawn o weithgareddau sefydliad. Bydd yn bwysig iawn, felly, dangos bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin mewn ffordd sy'n parchu'r egwyddor o gydraddoldeb pan gyflawnir y gweithgareddau hyn.

Felly, wrth fynd ati i gynllunio a gweithredu ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoeddusrwydd, dylai sefydliadau geisio gweithredu'r amcanion canlynol:

- Dylid cynhyrchu pob deunydd cyhoeddusrwydd i'w ddefnyddio yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg;
- Dylai ymgyrchoedd hysbysebu i'r wasg yng Nghymru gael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg;
- Dylai ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar deledu a radio a bwletinau gwybodaeth a ddarlledir i'r cyhoedd yng Nghymru fod yn Gymraeg a Saesneg;
- Dylai hysbysebu ar bosteri a byrddau gwybodaeth a chan ddefnyddio negeseuon electronig yng Nghymru fod yn Gymraeg a Saesneg;
- Dylai arolygon cyhoeddus yng Nghymru, p'un a gânt eu cynnal 'drwy'r post', 'o ddrws i ddrws', 'ar y stryd' neu fel arall, gael eu cynnal yn ddwyieithog;
- Dylid cynnal ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg;
- Dylai dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru alluogi cysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Dylai arddangosfeydd a stondinau gwybodaeth yng Nghymru fod yn ddwyieithog.

Mae'r Bwrdd yn bwriadu cyhoeddi cyngor pellach ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru. Yn y cyfamser, dylai sefydliadau



fabwysiadu tybiaeth gyffredinol o blaid ymgyrchoedd dwyieithog, a dylid adlewyrchu hyn yn eu cynlluniau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod y bydd angen ystyried pob ymgyrch hysbysebu a chyhoedduswydd yn ôl ei haeddiant, gan gadw mewn cof faterion megis maint a natur y gynulleidfa darged, amgylchiadau'r ymgyrch, amseru, pwysigrwydd, galw a gwerth am yr arian. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn oll yng nghyd-destun yr angen i drin y Gymraeg ar Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

At ddiben y canllawiau hyn, mae "Cyhoedduswydd" a "Hysbysebu" yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) y canlynol:

- (1) Llenyddiaeth: pamffledi, llyfrynau a thafenni i hybu, i roi cyhoedduswydd, neu i esbonio cynlluniau, polisiau, trefniadau, deddfwriaeth neu wasanaethau;
- (2) Ffilmiau, fideo, tâpiau, a deunyddiau clyweledol: gyda'r un amcanion â'r rhai a ddisgrifir o dan (1) uchod;
- (3) Arddangosfeydd, cynadleddau a seminarau: deunyddiau arddangos cysylltiol;
- (4) Hysbysebu: drwy gyfrwng teledu, radio, sinema, negeseuon electronig, systemau cyfarch cyhoeddus, poster, hysbysfyrddau ar wasg, p'un ai'r wasg genedlaethol, leol neu arbenigol;
- (5) Postio uniongyrchol: gan gynnwys deunydd hyrwyddo;
- (6) Dulliau ymateb: fel llinellau cymorth a ddefnyddir at ddibenion ymgyrchoedd hyrwyddo a gwasanaethau gwybodaeth;
- (7) Ymchwil y farchnad: ymchwil y farchnad, naill ai cyn hyrwyddiad (e.e datblygu creadigol) neu ar ei ôl, er mwyn arolygu ac asesu ei effeithiolrwydd.

- ◆ Ymrwymiad i gynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoedduswydd yng Nghymru yn ddwyieithog, mewn modd sy'n trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal.
- ◆ Disgrifiad o'r ymrwymadau ar darpariaethau a wneir ar gyfer pob un o'r gweithgareddau cyhoedduswydd a hysbysebu a restrir yn y Cyngor uchod.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd ar trefniadau i'w gwneud i sicrhau y gweithredir yr ymrwymadau hyn.

MESURAU

Dylai'r cynllun bennu'r mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebu recriwtio staff yng Nghymru.

CANLLAW
7(xi)

Dylai hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio yng Nghymru, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall, fel arfer ymddangos gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Dylent fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Mae'r 'wasg' uchod yn cynnwys yr argraffiadau hynny o'r papurau dyddiol a rhanbarthol wythnosol ar cylchgronnau sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru yn bennaf neu'n unig.

CYNGOR

Dylai sefydliadau hefyd ystyried rhoi hysbysebion dwyieithog mewn papurau a chylchgronnau



sy'n cylchredeg yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol, yn enwedig pan fo'r nod yn un o ddenu siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu.

Gall hysbysebion Cymraeg yn unig fod yn briodol yn y wasg Gymraeg. Hefyd, pan gaiff swyddi eu hysbysebu lle credir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, gall hysbyseb yn Gymraeg yn unig yn y wasg gyffredinol fod yn briodol gyda throednodyn yn Saesneg sy'n esbonio diben yr hysbyseb.

MESURAU

- ◆ Ymrwymiad y bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff yn ymddangos yng Nghymru gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd, ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd - boed hynny 'yn y wasg', 'ar hysbysfyrdau' neu fel arall.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i weithredu'r ymrwymadau hyn yn unol â'r Cyngor uchod.

GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

CANLLAW 8(i) ac 8(ii)

Dylai'r cynllun bennu:

- mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle ystyrir ei fod yn ddymunol er mwyn darparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor isod, sy'n mynd gyda Chanllaw 8(i) ac 8(ii), wedi'i baratoi mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.

CYNGOR

I lawer o sefydliadau, bydd ansawdd ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddibynnol ar gael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol. Wrth gwrs, bydd ffordd pob sefydliad o gyflawni hyn yn fater i'r sefydliad ei hun benderfynu arno yng nghyd-destun gwireddu'r mesurau a bennir yn ei gynllun. Mewn llawer sefyllfa, efallai y bydd angen lleoli staff sy'n siarad Cymraeg mewn swyddi penodol, neu fel aelodau o dîm ardal neu swyddfa sy'n darparu gwasanaeth arbennig. Bydd y graddau y ceir hyn yn angenrheidiol neu'n bosib yn amrywio rhwng sefydliadau ac ardaloedd gwahanol.

Dylid cyflwyno'r trefniadau staffio a wneir i gefnogi cynlluniau mewn modd sensitif. Dylai sefydliadau feithrin agwedd gefnogol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog, ac annog staff i gymryd rhan. Ni ddylai siaradwyr di-Gymraeg deimlo dan fygythiad neu dan anfantais, ac ni



ddyldid rhoi pwysau ar siaradwyr Cymraeg i symud yn groes i'w hewyllys i swyddi sy'n ymwneud â'r cynllun. Er na ddyldid gweithredu'r cynlluniau ar draul unrhyw aelod o'r staff, dylai sefydliadau fod yn effro am gyfleoedd i weithredu agweddau o'u cynlluniau pan fydd cyfleoedd hyfforddi, trosglwyddo neu recriwtio addas yn dod. Yn hyn o beth, dylent drin sgiliau ieithyddol mewn modd tebyg i unrhyw sgiliau eraill sydd eu hangen yn y gweithle.

Fel rhan o'u cynllun, dylai sefydliadau bennu'r mesurau y maent yn bwriadu eu cymryd fel rhan o'u strategaeth staffio er mwyn cyrraedd sefyllfa cyn gynted â phosib, lle y gallant gyflwyno eu dewis llawn o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid cysylltu hyn â'r amserlen yn y cynllun, lle mae hynny'n bosib. Wrth asesu eu anghenion staffio, dylai sefydliadau ddarparu ar gyfer cynnydd posib yn y galw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth i gynlluniau gael eu gweithredu, ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig i ddelio â nhw yn Gymraeg. Gan gadw hyn mewn cof, dylai sefydliadau ddilyn y dull o weithredu a ddisgrifir isod:

- 1) drwy ystyried yn fanwl natur ei weithgareddau a'i berthynas â'r cyhoedd yng Nghymru dylai'r sefydliad mewn modd gwrthrychol glustnodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn sgil hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol, a lefel y medrusrwydd sydd ei angen. Dylid llunio disgrifiadau tîm a disgrifiadau swyddi yn unol â hynny, lle mae angen;
- 2) dylai'r sefydliad hefyd sefydlu faint o'i staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg, a lefel eu medrusrwydd, a faint o'r rheiny sydd ar hyn o bryd mewn gweithleoedd neu swyddi a glustnodwyd yn unol ag (1) uchod. Yna dylid cymharu canlyniadau'r ymarfer hwn â chasgliadau (1) uchod er mwyn canfod lle mae angen gweithredu;
- 3) yna dylai'r sefydliad ystyried y ffordd orau i gyflawni gweddill yr amcanion staffio a bennir yn (2) uchod. Gall y dewis sydd ar gael gynnwys trosglwyddo staff sy'n siarad Cymraeg i weithleoedd neu swyddi penodol, darparu hyfforddiant dysgu Cymraeg i staff, a recriwtio siaradwyr Cymraeg i weithleoedd neu swyddi penodol;
- 4) dylai'r sefydliad fabwysiadu rhaglen weithredu lle pennir blaenoriaethau. Dylai rheolwyr ac eraill sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi ac arolygu staff fod yn gyfarwydd â'r rhaglen, ac yn gyfrifol am ei gweithredu;
- 5) dylid arolygu gweithredu'r rhaglen fel rhan o'r gwaith o arolygu'r cynllun, a fydd hefyd yn amlygu'r camau i'w cymryd os bydd nifer y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn dechrau lleihau.

Dylai'r angen i weithleoedd gael gafael ar staff sy'n siarad Cymraeg fel y nodir uchod gael ei weld fel nod. Rhaid derbyn y bydd rhai sefydliadau yn cael mwy o anhawster nag eraill i gyrraedd y nod hwn, oherwydd eu lleoliad daearyddol, neu natur arbenigol eu gwasanaeth. Fe all eu gallu i wneud hynny'n gyflym ddibynnu'n rhannol ar y cyfanswm presennol o siaradwyr Cymraeg, a'r graddau y gall fod yn bosibl i'w hail-leoli mewn swyddi, os bydd angen, yn unol â'r nod uchod. Bydd cryn dipyn hefyd yn dibynnu ar y graddau y bydd staff yn barod i ddysgu ac yn gallu dysgu Cymraeg i'r lefel o fedrusrwydd sydd ei angen i gyflawni'r swydd - ac i ba raddau y gellir neilltuo amser ac adnoddau eraill i'r diben hwnnw. Lle rhagwelir anhawsterau, bydd y Bwrdd yn talu sylw iddynt wrth asesu'r hyn sy'n rhesymol ymarferol i sefydliadau ei ddarparu a'i weithredu yn eu cynlluniau yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mewn rhai gwasanaethau, efallai bydd angen i sefydliadau gael strategaethau recriwtio penodol, a chymryd camau mewn partneriaeth â cholegau a phroffesiynau i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r gwasanaeth.



- ◆ Ymrwymiad i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ◆ Ymrwymiad i glustnodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol, i glustnodi lefel y medrusrwydd sydd ei angen bob tro, ac i lunio disgrifiadau tîm a disgrifiadau swydd yn unol â hynny.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd fel rhan o strategaeth staffio'r sefydliad i geisio gwireddu'r ymrwymadau hyn cyn gynted â phosib. Dylai hyn gynnwys sefydlu blaenoriaethau, adnoddau presennol ac unrhyw gamau tymor hir sydd eu hangen i oresgyn prinder tebygol, fel y'u disgrifir yn y Cyngor uchod.
- ◆ Ymrwymiad y gweithredir y rhaglen gan reolwyr ac eraill sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi ac arolygu staff.
- ◆ Ymrwymiad i arolygu sut mae'r rhaglen yn mynd yn ei blaen ac i weithredu os bydd nifer y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn dechrau lleihau.

Dysgu Cymraeg

Bydd sefydliadau, gobeithio, yn dymuno cefnogi eu cynllun drwy annog a chefnogi aelodau presennol o'r staff i ddysgu Cymraeg. Ni ddylent fodd bynnag bwysu ar y staff hynny i ddysgu Cymraeg yn groes i'w dymuniad. Pan fydd staff yn ymateb i anogaeth eu cyflogwr drwy ddewis dysgu Cymraeg o'u gwirfodd, wrth fwrw 'mlaen dylid sefydlu hyn fel partneriaeth rhyngddynt. Bydd gofyn bod rhaglenni gwaith yn caniatáu digon o amser i alluogi staff i ddilyn eu cyrsiau yn rheolaidd.

Gall hyfforddi staff i lefel lle y gallant sgwrsio yn gyfforddus yn Gymraeg olygu adnoddau sylweddol, yn nhermau ariannol ac yn yr ymrwymiad amser sydd ei angen. Felly, mae'n bwysig cynllunio rhaglenni hyfforddiant yn ofalus a chanolbwyntio adnoddau ar y manau hynny o gyflwyno gwasanaeth lle bydd cyfathrebu'n aml gyda siaradwyr Cymraeg, p'un ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy ddulliau eraill. Mae'n fuddiol hefyd bod dysgwyr yn gwybod am gydwethwyr sy'n siarad Cymraeg neu sy'n dysgu ei siarad. Gallai'r cyfeirlyfr mewnol (a grybwyllir o dan Ganllaw 6(ii)) fod yn un dull o wneud hyn. Dylai sefydliadau annog eu staff i siarad Cymraeg gyda'i gilydd er mwyn cynorthwyo'r rheiny sy'n dysgu.

Dylai hyfforddiant ychwanegol (er enghraifft, cyrsiau gloywi iaith) i staff sydd eisoes yn siarad rhywfaint o Gymraeg fod yn ffordd gyflym o chwyddo'r gronfa o siaradwyr Cymraeg a all ddelio â'r cyhoedd yn Gymraeg, a hynny drwy ddull a ddylai gynnig gwerth da am yr arian. Dylid gwneud yn siwr fod geiriaduron, tapiau a deunydd cyfeirio arall ar gael i helpu staff gyda hyfforddiant iaith, fel y bo'r angen. Dylid ceisio sicrhau y bydd rheolwyr cyffredinol, rheolwyr personél a swyddogion sy'n gyfrifol am hyfforddiant yn annog staff i fynd ar gyrsiau iaith - ac yn rhoi cymorth i staff wrth iddynt ddysgu'r iaith - er budd y cyflogwr a'r cyhoedd. Dylai'r manteision hyn gynnwys:

- bod â staff wrth law sy'n gallu siarad yn Gymraeg ag ymwelwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth (er enghraifft, dros y ffôn neu yn y dderbynfa, ac mewn cyfarfodydd, cynadleddau, seminarau ac arddangosfeydd cyhoeddus);
- bod â staff sy'n gallu deall a llunio gohebiaeth a dogfennau yn Gymraeg, a thrwy



hynny sicrhau y gellir cymryd camau ar unwaith, heb orfod aros neu dalu am gyfieithiad Saesneg;

- bod â staff a all wirio cyfieithiadau Cymraeg o ddogfennau, cyn eu dosbarthu, er mwyn sicrhau bod y cyfieithydd wedi cyfleu'r neges â'r ystyr a ddymunir.

O safbwynt y cyrsiau eu hunain, dylid ystyried y canlynol ar gyfer pob aelod o staff sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg:

- pa nodau ddylid eu gosod ar gyfer staff sy'n dysgu Cymraeg. (Dylai'r nodau hyn gydnabod y gall y rhugledd mewn Cymraeg llafar neu ysgrifenedig sydd ei angen, er mwyn cyflawni gwaith i safon dderbyniol, amrywio o un swydd i'r llall fel y gall yn Saesneg);
- pa gyrsiau sydd fwyaf addas (gan adlewyrchu'r amser sydd ar gael i astudio, a gwybodaeth flaenorol aelodau staff unigol o'r Gymraeg);
- pa gyrsiau sy'n benodol ar gyfer gwella gafael siaradwyr Cymraeg ar Gymraeg ysgrifenedig safonol;
- sut i ddefnyddio sgiliau newydd pob aelod o'r staff yn y gweithle.

Dylai sefydliadau hefyd ystyried darparu pecynnau dysgu-o-bell i staff, a all gynnig cyflwyniad i ddysgu Cymraeg am bris cymharol resymol. Yn y cyd-destun hwn, dylai sefydliadau eto geisio dod o hyd i'r pecynnau gorau sydd ar gael, ac ystyried gosod nodau a gwerthuso cynnydd.

Hefyd, gellir cael cyngor mwy penodol ar gyrsiau ar gyfer dysgwyr Cymraeg gan y Swyddog Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX [rhif ffôn (01222) 555446].

- ◆ Ymrwymiad i annog aelodau o'r staff i ddysgu Cymraeg neu loywi eu Cymraeg, ac i gefnogi a galluogi'r rheiny sy'n dymuno gwneud hynny.
- ◆ Ymrwymiad i drefnu rhaglenni dysgu a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi sy'n bwysig i wireddiad y cynllun.
- ◆ Disgrifiad o'r hyn a wneir i weithredu'r ymrwymadau hyn yn unol â'r Cyngor uchod.

MESURAU

Recriwtio

Bydd sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gyfer gweithleoedd sydd eu hangen, hefyd yn dibynnu i ryw raddau ar lwyddiant sefydliadau wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg. A siarad yn gyffredinol, wrth gwrs, mae angen cadw nifer o sgiliau mewn cof wrth benodi, a bydd gallu ieithyddol yn un o'r rheiny. Efallai y bydd angen i rai sefydliadau fabwysiadu strategaethau gweithredu positif sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu. Bydd hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd y Gymraeg yn gynyddol yn dod yn rhan reolaidd o fywyd cyhoeddus - yn enwedig wrth i sefydliadau weithredu gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg drwy eu cynlluniau iaith.

Mae'r angen i gysylltu sgiliau ieithyddol â rhai swyddi yn adlewyrchu realiti bod yn gyflogwr sy'n amcanu at geisio cyflwyno gwasanaeth o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd rhai swyddi lle mae'r gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn hanfodol. Bydd swyddi eraill lle gallai fod yn ddymunol, ar rhyw adeg, i'r swyddfa neu'r gwasanaeth gael ei gryfhau gan siaradwr



Cymraeg ychwanegol, ond lle nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd unigol a hysbysebir. Yn y dyfodol, efallai y bydd llai o siaradwyr Cymraeg yn y tîm, ac efallai wedyn y bydd angen i'r un swydd unigol gael ei hysbysebu gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn gymhwyster hanfodol ar ei chyfer. Mae hyn oherwydd, er mwyn cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn unol â'i gynllun, bydd angen i'r sefydliad gadw llygad ar ei gronfa o siaradwyr Cymraeg yn union fel y mae'n ei wneud gydag unrhyw sgil arall a chymryd camau priodol i gywiro unrhyw brinder.

Wrth recriwtio staff i swyddi lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, dylai sefydliadau fod yn wylidwrus o goblygiadau Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976. Yn gyntaf, dylid cadw mewn cof bod y Cymry, fel mater o gyfraith, yn un grwp hiliol. Nid ydynt yn ddau grwp hiliol, sef un yn siarad Cymraeg a'r llall yn siarad Saesneg. Nid yw gwahaniaethu rhwng Cymry a'i gilydd o ran eu gallu neu anallu i siarad Cymraeg felly yn creu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon. Fodd bynnag, ni ddylai sefydliadau wahaniaethu yn fypwyl rhwng Cymry a'i gilydd ar sail eu hiaith. Byddai hyn yn groes i arfer da.

Fe allai ystyried bod gallu ieithyddol yn amod hanfodol ar gyfer penodi, fodd bynnag, greu gwahaniaethu hiliol anuniongyrchol yn llygad y gyfraith o'i wneud er mwyn gwahaniaethu rhwng pobl Cymru ac eraill. Mae hyn oherwydd y tebygrwydd y gall pobl Cymru fodloni'r amod yn haws nag eraill. Yn y cyd-destun hwn, drwy benderfynu bod yn rhaid i aelod o'r staff neu ddarpar aelod o'r staff fedru siarad Cymraeg, byddai'r cyflogwr yn gosod "amod neu ofyniad" a allai olygu gwahaniaethu anuniongyrchol os na ellid dangos, mewn modd gwrthrychol, bod cyfiawnhad i'r amod neu ofyniad pan bwysir anghenion rhesymol y cyflogwr yn erbyn effaith unrhyw wahaniaethu.

Yng nghyd-destun cynlluniau a baratoir o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, bydd sefydliadau yn ateb dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd eu cynlluniau, i bob pwrpas, yn addewid cyhoeddus i berfformio i'r perwyl hwnnw. Os ydynt yn dod i'r casgliad na fedrant yn rhesymol fodloni eu dyletswyddau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg heb gael siaradwyr Cymraeg mewn rhai swyddi penodol yna, fel rheol, gallant ddangos fod cyfiawnhad dros benodi pobl sy'n siarad Cymraeg i'r swyddi hynny. Ym mhob achos, fodd bynnag, dylai sefydliadau ystyried perthnasedd gallu ieithyddol i ddyletswyddau'r swydd dan sylw, a chael cyngor cyfreithiol os ydynt yn ansicr er mwyn osgoi gwahaniaethu o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

Os, ar y llaw arall, yr ystyrir mai dymunol ond nid hanfodol yw'r gallu i siarad Cymraeg, ac un allan o nifer o ffactorau dymunol i'w hystyried wrth asesu addasrwydd ar gyfer swydd, yna ni fyddai hyn yn cynrychioli "amod neu ofyniad", ac ni fyddai ar ei ben ei hun yn wahaniaethu anuniongyrchol o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

Nid yw cyfraith Ewrop, sy'n darparu ar gyfer rhyddid gweithwyr i symud o fewn yr Ardal Economeg Ewropeaidd, yn rhwystro'r gwladwriaethau sy'n aelodau ohoni na chyrrff cyhoeddus yn y gwladwriaethau hynny rhag gosod amod ynglŷn â gallu ieithyddol pan fydd angen gallu ieithyddol oherwydd natur y swydd sydd i'w llenwi. [Rheoliad (EEC) Rhif 1612/68. Cymal 3, paragraff 1].

P'un a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn hanfodol neu'n dymunol, beth sy'n bwysig yw bod angen i sefydliadau fabwysiadu a defnyddio meini prawf gwrthrychol er mwyn sicrhau y gwneir apwyntiadau yn deg a chyson ym mhob achos, a'u bod yn adlewyrchu gofynion sgiliau'r swydd.



Ar adegau, lle bu anhawster recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol, efallai y bydd angen penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Fodd bynnag, dylid hysbysebu a chynnig swyddi o'r fath ar y ddealltwriaeth y bydd angen i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith fel amod o gyflogaeth a chyrraedd lefel foddhaol o rugledd o fewn cyfnod penodol rhesymol. Dylai'r lefel rhugledd a bennir fod yr hyn sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau'r swydd, a dylid gwneud hynny'n glir i ymgeiswyr yn y manylion swydd, ochr yn ochr â chefnogaeth y sefydliad iddynt ddysgu'r iaith.

Dylai sefydliadau sydd am fwrw 'mlaen fel hyn roi'r amser ar cymorth angenrheidiol i alluogi'r swyddog i fodloni'r amod, a dylent sicrhau, os ydyw hynny'n bosib, nad yw'r aelod o'r staff dan anfantais mewn modd arall oherwydd cadw at yr amod (fel colli cyfleoedd hyfforddi eraill sy'n berthnasol i'r swydd). Mae angen cynllunio'r rhaglen ddysgu, a'i harolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyflogwr ar swyddog yn cadw at eu gair. Dylai hyn fod yn rhan o sicrhau bod gan y sefydliad yn ei gyfanrwydd nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu i gyflwyno'r gwasanaethau sy'n ei gynllun.

Dylai sefydliadau gadw mewn cof, pan fyddant yn clymu sgiliau ieithyddol i swyddi unigol, ac yn cyflogi ac asesu perfformiad ar sail hynny, bydd angen iddynt ofalu eu bod yn egluro wrth staff ac ymgeiswyr pam fod hyn yn angenrheidiol ac yn bwysig i'r sefydliad. Bydd rhoi cyfle i staff ddysgu neu gryfhau eu Cymraeg hefyd yn rhoi cyfle iddynt fod yn rhan o weithredu'r cynllun.

- ◆ Ymrwymiad, pan ystyrir gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, y bydd hyn yn cael ei ragnodi wrth recriwtio i'r swydd honno.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i osod blaenoriaethau a rhoi cyhoeddusrwydd (lle bo angen hynny) i'r ffaith bod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau pan fo unrhyw un nad yw'n siarad Cymraeg yn cael ei benodi i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yn amod o gyflogaeth i ddysgu'r iaith i'r safon angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol a gytunwyd arno, gyda chefnogaeth lawn y sefydliad.
- ◆ Disgrifiad o'r trefniadau a wneir i weithredu'r ymrwymadau hyn, yn unol â'r Cyngor uchod.

MESURAU

Dylai'r cynllun bennu mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg a mesurau ar gyfer diwallu'r angen hwnnw.

CANLLAW
8(iii)

Dylai sefydliadau ystyried yr angen i gynnig cyrsiau hyfforddi er mwyn datblygu gallu siaradwyr Cymraeg i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn golygu gwerthuso sgiliau siarad ac ysgrifennu presennol, a'u cydio wrth anghenion y gweithle. Gall yr anghenion hyn fod yn anffurfiol, fel delio "wyneb yn wyneb" neu "dros y ffôn", neu'n sefyllfaoedd sy'n gofyn mwy, fel siarad yn ffurfiol neu gyfweiliad â'r cyfryngau. Yn ogystal â chyfathrebu, fe all fod angen

CYNGOR



hyfforddiant sy'n ymwneud â phrosesu geiriau neu deipio cyffredinol, a hefyd gyrsiau wedi eu cynllunio i alluogi staff i ymglyfarwyddo â defnyddio'r Gymraeg mewn meysydd arbenigol fel cyfrifeg, y gyfraith, iechyd, addysg a meysydd gwasanaeth eraill. Mae cyfieithu ar y pryd a chofreithu gwaith papur hefyd yn sgiliau arbenigol.

Gellir cael cyngor ynglŷn â chysiau hyfforddi o golegau a sefydliadau hyfforddi yn y sector addysg bellach ac uwch yng Nghymru. Lle nad oes cyrsiau ar gael "ar y silff", dylai sefydliadau fynd ar ôl cyrsiau wedi'u trefnu'n bwrpasol (fel y rhai a drefnir gan Ganolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn), ac ystyried trefnu seminarau a gweithgору, neu rwydweithio â sefydliadau eraill.

Ni fydd y cyrsiau hyfforddi uchod o reidrwydd yn golygu adnoddau sylweddol, ond dylai sefydliadau gyfeirio digon o adnoddau hyfforddi tuag at gyrsiau o'r fath er mwyn cwrdd â nodau ac amcanion eu cynlluniau. Wrth wneud hynny, byddant nid yn unig yn buddsoddi yn eu staff a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'r cyhoedd, ond hefyd mewn arbed costau cyfieithu a chostau eraill.

Wrth drefnu hyfforddiant a chysiau, efallai y bydd sefydliadau'n dymuno dilyn y math o broses a awgrymir gan y Corff Arwain ar Ieithoedd. Yn ei hanfod, mae'n fframwaith a fwriadwyd i'w ddefnyddio gan gyrff a chwmnïau sy'n dymuno cryfhau'r defnydd o ieithoedd heblaw'r Saesneg yn eu gweithgareddau. Drwy ddefnyddio trefn o'r fath, gellir gwerthuso sgiliau staff, a gallai'r canlyniadau fod yn ddefnyddiol ar gyfer recriwtio, gwerthuso a disgrifio swyddi. Gellir cysylltu â'r Corff Arwain ar Ieithoedd (Languages Lead Body), d/o CILT, 20 Bedfordbury, Llundain WC2N 4LB. [rhif ffôn - 0171 379 5134].

Bydd gofyn i golegau addysg bellach ac uwch a sefydliadau eraill sy'n darparu hyfforddiant, neu gyngor ar ddatblygiad hyfforddiant a gyrfa, ystyried ystod a chynnwys y cyrsiau galwedigaethol y maent yn eu darparu er mwyn cwrdd â'r galw am bobl â sgiliau proffesiynol a sgiliau eraill fydd yn gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er y dylid asesu hyn yng nghydestun eu cynlluniau eu hunain, gallent hefyd ymchwilio i drefniadau rhwydweithio fel bod myfyrwyr sy'n dymuno derbyn hyfforddiant yn Gymraeg yn cael cyfle i ddefnyddio pecynnau dysgu-o-bell a mydylau mewn cyrsiau a ddarperir gan golegau a darparwyr cyrsiau eraill.

MESURAU

- ◆ Ymrwymiad i asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ◆ Ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant galwedigaethol i hwyluso gweithredu'r cynllun.
- ◆ Disgrifiad o'r camau a gymerir i weithredu'r ymrwymadau hyn yn unol â'r Cyngor uchod.



Bydd gweithredu'r cynllun yn llwyddiannus yn dibynnu llawer ar y trefniadau gweinyddol a wneir i'w ategu a'i hwyluso. Er bod angen rhoi ystyriaeth benodol i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob lefel o gynllunio a chyflwyno gwasanaeth, ni ddylai hynny arwain at drefniadau ar wahân ar gyfer gweithredu'r cynllun. Dylid rhoi'r pwyslais ar integreiddio agweddau Cymraeg y gwasanaeth o fewn prosesau gweinyddol arferol y sefydliad pryd bynnag y bydd hynny'n bosib.

CYNGOR

Bydd y trefniadau gweinyddol yn amrywio rhwng sefydliadau â'i gilydd, i adlewyrchu eu maint a natur eu gweithgareddau a'u dulliau o ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru. Mater i'r sefydliadau eu hunain yw penderfynu ar fanylion y trefniadau hynny. Fodd bynnag, dylai'r cynllun ddweud yn fras pa drefniadau a wneir yn unol â'r cyngor isod.

1) **Awdurdod**

Dylai'r mesurau yn y cynllun gael eu cymeradwyo ar y lefel uchaf a dwyn awdurdod llawn y sefydliad wrth eu gweithredu.

2) **Cyfrifoldeb**

Mewn sefydliadau mawr, dylai'r dasg o sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu fod yn gyfrifoldeb penodol i uwch-swyddog. Fodd bynnag, dylai rheolwyr gael y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy. Os caiff "adran Gymraeg" ei chreu i wasanaethu'r cynllun, dylid cadw rheolaeth er mwyn sicrhau bod gweithredu'r cynllun yn "perthyn" i'r sefydliad i gyd. Gall fod yn briodol sefydlu tîm cydlynu sy'n cynrychioli gwahanol rannau o'r sefydliad, yn enwedig yng nghyfnod sefydlu'r cynllun.

Mewn sefydliadau llai, mae'n bosib y bydd y cyfrifoldeb yn nwylo un person sy'n cydlynu, yn gwasanaethu ac yn arolygu'r cynllun. Mae'r angen i greu teimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb ymhlith staff eraill, serch hynny, yr un mor berthnasol mewn amgylchiadau fel hyn.

3) **Cyfarwyddiadau ac Arweiniad**

Dylid cynorthwyo'r cynllun drwy ddarparu cyfarwyddiadau a chanllawiau ysgrifenedig. Mae'r math o gyfarwyddiadau a chanllawiau wedi eu hamlinellu eisoes o dan y canllawiau unigol. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a safon o ran gweithredu'r cynllun ar draws y sefydliad cyfan. Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o sefydliadau, bydd yn hanfodol cael canllawiau ysgrifenedig ynglŷn â sut i ddelio â materion fel gohebiaeth, trefnu cyfarfodydd neu ateb y ffôn. Bydd angen cyfarwyddiadau manylach ar gyfer mesurau eraill megis arddull gorfforaethol, cyhoeddiadau, comisiynu rhaglenni cyfrifiadur a dylunio ffurflenni. Yn ogystal â chanllawiau ysgrifenedig gall sesiynau hyfforddi neu frifio fod yn briodol hefyd. Ni ddylai'r cynllun gynnwys yr holl gyfarwyddiadau ar canllawiau yn fanwl; fodd bynnag, fe ddylai ddisgrifio pa ddogfennaeth ynglŷn â'r mesurau yn y cynllun fydd yn cael ei ddarparu, a'i bwrpas.

Bydd angen i staff nad ydynt yn rhan uniongyrchol o weithredu'r cynllun, er hynny, feddu ar lefel ddigonol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth i werthfawrogi effaith y



cynllun ar eu gwaith, ac i'r gwrthwyneb. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhai sy'n cynllunio ac yn prynu at y dyfodol. Yn enwedig felly, dylai'r angen i gynhyrchu deunydd dwyieithog i'w ddefnyddio yng Nghymru fod yn ystyriaeth ganolog wrth gynllunio a chomisiynu rhaglenni cyfrifiadur. Bydd systemau busnes cyfrifiadurol yn allweddol i gwrdd â gofynion y cynlluniau wrth i ddogfennau fwyfwy gael eu cynhyrchu gan gyfrifiadur. Lle nad yw'n bosib addasu'r systemau presennol, dylai'r cynllun bennu pa gamau sydd i'w cymryd i sicrhau darpariaeth ddwyieithog cyn gynted â phosib. Dylai ddweud hefyd, sut y bydd y sefydliad yn darparu gwasanaeth Cymraeg yn y cyfamser.

4) **Gwasanaethau Cyfieithu**

I lawer, bydd sicrhau gwasanaethau cyfieithu digonol yn elfen hanfodol o weithredu eu cynlluniau iaith yn llwyddiannus. Bydd hyn o ddiddordeb arbennig i staff sy'n gyfrifol am ddatblygu ac arolygu defnydd y sefydliad o'r Gymraeg (er enghraifft, mewn cyhoeddiadau ac mewn cyfarfodydd), ac am arolygu'r cynllun. Mae cyfieithu'n waith sy'n gofyn am sgil arbenigol, ac ni ellir ei wneud gan bob swyddog dwyieithog. Cynghorir sefydliadau, felly, i sicrhau bod unrhyw gyfieithwyr y byddant yn eu cyflogi yn gymwys ar gyfer y gwaith (p'un a fyddant yn cael eu cyflogi'n fewnol neu fel asiant) ac yn gallu darparu gwasanaeth o safon uchel.

Os na chyflogir cyfieithwyr mewnol, gellir cael gwasanaethau cyfieithu gan gyfieithwyr asiant (naill ai'n hunan-gyflogedig, drwy asiantaeth gyfieithu neu drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithwyr a gyflogir gan sefydliadau eraill). Wrth ddefnyddio cyfieithwyr asiant, gall fod o gymorth gofyn iddynt gyflwyno tendr ar gyfer y gwasanaeth o bryd i'w gilydd. Mae'r manteision posib o drefniant ffurfiol yn cynnwys:

- dylai'r prisiau fod yn fwy cystadleuol (yn enwedig os cytunir ar gcontractau gyda llond dwrn o gyflenwyr);
- dylai fod sicrwydd ar gael o safbwynt cwblhau'r gwaith mewn pryd;
- gellir annog y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a dulliau eraill o dechnoleg i gyflwyno gwasanaeth cyflym ac effeithiol (er enghraifft, trwy ddefnyddio peiriannau ffacs, a chysylltiadau electronig rhwng terfynellau prosesu geiriau);
- dylai sicrhau gwell cyfrinachedd;
- dylied cael sicrwydd yswiriant priodol gan gyfieithwyr;
- dylai cyfieithwyr sy'n darparu gwasanaethau yn rheolaidd gyfarwyddo â'r testun a'r eirfa dechnegol a ddefnyddir gan y sefydliad.

Dylai staff ymgyfarwyddo â'r amser sydd ei angen ar gyfartaledd i gyfieithu dogfennau. Mae hyn yn rhan hanfodol o gynllunio wrth baratoi, er enghraifft, ddogfennau i'w cyhoeddi. Bydd hefyd yn ei gwneud hi'n bosib gosod terfynau amser realistig pan gaiff gwaith cyfieithu ei gomisiynu. Gellir cael mwy o gyngor ynglŷn â gweithio gyda chyfieithwyr a chomisiynu eu gwasanaeth oddi wrth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ac yng "Nghyfeirlyfr Cyfieithwyr" y Bwrdd.

MESURAU

- ◆ Cadarnhad bod yr ymrwymadau a'r trefniadau a nodir yn y cynllun wedi cael eu cymeradwyo ar y lefel uchaf ac y byddant yn dwyn awdurdod llawn y sefydliad wrth eu gweithredu.



- ◆ Ymrwymiad i roi cyfrifoldeb cydlynol am y cynllun i uwch swyddog, ond bod rheolwyr yn cael y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun, a bod staff yn gwybod sut mae ei weithredu, a beth sydd i'w ddisgwyl ganddynt.
- ◆ Ymrwymiad i integreiddio'r agweddau o wasanaeth y sefydliad sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg o fewn ei brosesau gweinyddol arferol.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau y bydd y manylebau ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol newydd neu amnewid, neu i'w haddasu, yn galluogi'r sefydliad i weithredu'r ymrwymadau yn ei gynllun.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau y bydd gan gyfieithwyr y sefydliad gymwysterau priodol ac y gallant ddarparu gwasanaeth o safon uchel.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i sicrhau y gweithredir y cynllun mewn modd cynhwysfawr a chyson ar draws y sefydliad.
- ◆ Os na ellir addasu systemau cyfrifiadurol presennol er mwyn hwyluso'r cynllun, disgrifiad o'r trefniadau a wneir dros dro nes bod y systemau newydd yn eu lle.

Dylai'r cynllun bennu'r camau sydd i'w cymryd er mwyn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.

CANLLAW
8(v)

Pan gaiff unrhyw wasanaeth newydd neu wasanaeth presennol i'r cyhoedd yng Nghymru ei roi allan ar gontract, neu fel rhan o brofi'r farchnad, bydd angen i'r sefydliad sicrhau drwy ei drefniadau contractio bod yr asiant neu'r contractiwr, neu unrhyw is-gontractiwr, yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o gynllun y sefydliad wrth ymdrin â'r cyhoedd. Mae hyn oherwydd bod y cyfrifoldeb statudol am y gwasanaeth fel arfer yn parhau gyda'r sefydliad cyhoeddus, ac felly yn parhau yn fater i'w gynnwys yn y cynllun. Mae'r rheidrwydd i wneud hyn wedi ei ddweud sawl tro gan y Llywodraeth. Er enghraifft cadarnhaodd yr Iarll Ferrers wrth i'r Ddeddf fynd drwy'r Senedd (Hansard 2 Chwefror 1993):

CYNGOR

“ Os bydd corff cyhoeddus yn contractio un o'i wasanaethau a bod ganddo ddyletswydd i gyflawni rhai elfennau o'r cynllun, bydd hi'n fater i'r corff cyhoeddus hwnnw sicrhau y gall y contractiwr gyflawni'r dyletswyddau hynny, y bydd yn eu cyflawni a'i fod wedi eu cyflawni.”

Felly bydd gofyn i sefydliadau roi trefniadau ysgrifenedig i'w staff ar gyfer delio ag asiantau a chontractwyr sy'n cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd ar eu rhan neu o dan eu goruchwyliaeth, ac i sicrhau bod eu staff yn cadw atynt. Er enghraifft, bydd yn rhaid manylu ar y gofynion o safbwynt defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro, contractau ac amodau grantiau a benthyciadau. Bydd yn rhaid cael arolygaeth dros weithredu'r gofynion hynny, a dylid derbyn adroddiadau perfformiad rheolaidd gan asiantau a chontractwyr y gall y sefydliad eu hymgorffori yn ei brosesau ei hun ar gyfer arolygu'r cynllun a gwneud adroddiadau perfformio.



Mae gweinyddu swyddogaethau statudol neu o reoleiddio (megis prynu gwasanaethau ar ran y cyhoedd neu roi trwydded a chaniatâd) yn rhan o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, a dylai sefydliadau sy'n gweinyddu swyddogaethau o'r fath gynnwys mesurau yn eu cynlluniau ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg wrth arfer y swyddogaethau hynny. Bydd y mesurau y dylai'r sefydliadau hyn eu cymryd yn dibynnu ar eu cyfrifoldebau a'u gweithgareddau, natur eu perthynas gyda'r parti sy'n cyflwyno'r gwasanaeth, a natur y gwasanaeth hwnnw. Maent yn debygol o gynnwys un neu fwy o'r mesurau canlynol:

- annog partiön eraill i ddatblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru;
- cefnogi'r rheiny sydd am gyflwyno gwasanaethau dwyieithog, fel wrth ddarparu arian tuag at gostau gwasanaethau gofal gan y sector gwirfoddol;
- hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg gan eraill, fel darparu cyfleusterau cyfieithu neu gyngor;
- cynnwys mesurau ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cytundebau gwasanaeth, trwyddedau gwasanaeth neu ddogfennau rheoleiddio eraill.

Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, annog darparwyr gofal iechyd, cymdeithasau tai, ac eraill sy'n cyflwyno gwasanaethau cymdeithasol a gofal, i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Efallai y byddant hefyd am ystyried dulliau eraill fel, er enghraifft, annog pobl sy'n gwneud cais cynllunio i godi arwyddion dwyieithog ar eiddo fel swyddfeydd a siopau, a thynnu eu sylw at grantiau a allai fod ar gael at y diben hwnnw (megis grant gan y Bwrdd, a gan Fwrdd Croeso Cymru dan eu cynllun "Naws am Le").

MESURAU

O safbwynt yr holl sefydliadau:

- ◆ Ymrwymiad i sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r cynllun. Hyn i gynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau trwy drefniadau contractio y gall, y bydd, a bod yr asiant neu'r contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o gynllun y sefydliad wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth.
- ◆ Disgrifiad o'r hyn a wneir i weithredu'r ymrwymadau hyn, gan gynnwys:
 - darparu gweithdrefnau ysgrifenedig i staff ar gyfer delio ag asiantau a chontractwyr, a phrosesau i sicrhau bod eu staff yn cadw atynt;
 - manylu ar y gofynion o safbwynt defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro, contractau ac amodau grantiau a benthyciadau;
 - arolygu gweithredu'r cynllun gan asiantau a chontractwyr;
 - cael adroddiadau perfformiad rheolaidd gan asiantau a chontractwyr.

Ar gyfer sefydliadau sy'n ymarfer swyddogaethau statudol:

- ◆ O safbwynt gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd yng Nghymru gan bartiön eraill, disgrifiad o'r camau i'w cymryd i annog, galluogi, hwyluso neu gefnogi defnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno'r gwasanaethau hynny.



Dylai sefydliadau arolygu gweithrediad eu cynlluniau, a dylai pob cynllun ddisgrifio'r agweddau hynny o'r cynllun sydd i'w harolygu, a sut y cânt eu harolygu. CYNGOR

Dylid rhoi'r prif gyfrifoldeb dros arolygu ac adolygu'r cynllun yn benodol i uwch-swyddog yn y sefydliad. Dylid cyhoeddi enw'r person hwnnw i staff eraill ac unrhyw asiant neu gontractiwr a gyflogir gan y sefydliad, fel sy'n briodol, yn ogystal ag i'r cyhoedd. Gall fod o gymorth hefyd i gyhoeddi enwau staff eraill sydd â chyfrifoldeb penodol, megis rheolwyr canghennau a rheolwyr cysylltiadau cyhoeddus. Os yn bosib ni ddylai'r person sydd â'r prif gyfrifoldeb dros arolygu'r cynllun fod yn rhan o'i weithredu o ddydd i ddydd.

Yn yr un modd â gwaith arolygu'r sefydliad yn gyffredinol, dylai arolygu'r cynllun fod yn weithgaredd parhaus, â strwythur iddo. Dylai gynnwys arolygu'r rhai sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran y sefydliad. Dylai hefyd gynnwys ceisio barn siaradwyr Cymraeg yn achlysurol ynglŷn ag amrediad a safon y gwasanaethau y mae'r sefydliad yn ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel rhan o drefniadau'r sefydliad ar gyfer arolygu'r cynllun, dylid mabwysiadu trefn gwyno briodol i ddelio ag anfodlonrwydd ynglŷn â'r cynllun. Dylai trefn o'r fath fod yn rhwydd i'w defnyddio ac yn hysbys, er mwyn sicrhau bod modd i'r cyhoedd gysylltu'n hawdd â rhywun yn y sefydliad fydd yn gallu delio â'u problemau. Dewis arall yw defnyddio trefn gwyno arferol y sefydliad ond gan drefnu bod modd arolygu cwynion ynglŷn â'r cynllun yn benodol.

Dylid croesawu a chofnodi awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth, a dylid rhoi gwybod i'r cyhoedd sut y dylent wneud eu barn yn hysbys, ac i bwy, a sut y bydd y sefydliad wedyn yn delio â'u syniadau.

Bydd y Bwrdd am dderbyn adroddiadau cyfnodol gan sefydliadau ar y cynnydd yng ngweithrediad eu cynllun. Bydd hyn yn cynnwys adrodd ar natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau gwelliant i'r cynllun a gânt gan y cyhoedd. Bydd y Bwrdd, fel arfer, yn gofyn am adroddiad blynyddol.

- ◆ Ymrwymiad i arolygu gweithredu'r cynllun.
- ◆ Disgrifiad o'r agweddau hynny o'r cynllun sydd i'w harolygu a sut y gwneir hynny. Bydd hyn yn cynnwys materion fel y rhai canlynol:
 - **cynllunio a phrynu at y dyfodol:** sicrhau bod polisïau neu drefniadau newydd, neu gyhoeddiadau, neu raglenni cyfrifiadur newydd yn gyson â chyflwyno gwasanaethau dwyieithog ar sail cydraddoldeb;
 - **trefnu a chyflwyno gwasanaethau:** arolygu gweithrediad y trefniadau a wnaed i gyflwyno gwasanaethau y sefydliad yn Gymraeg, a'u heffeithiolrwydd; arolygu pa mor dda y mae'r sefydliad yn annog ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan bartion eraill;
 - **delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg:** arolygu amseroedd ateb gohebiaeth



- **Gymraeg:** arolygu ansawdd gwasanaethau cyfieithu-ar-y-pryd; arolygu trefniadau ar gyfer cyfarfodydd;
- **wyneb cyhoeddus y sefydliad:** arolygu'r defnydd o hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad; arolygu cyflwyno'n ddwyieithog gyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunydd cyhoeddiedig arall;
- **staffio:** arolygu gweithredu'r mesurau staffio a hyfforddi a gynhwysir yn y cynllun;
- **asiantau a chontractwyr:** arolygu darparu a gweinyddu gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr y sefydliad er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â thelerau defnyddio'r Gymraeg eu cytundeb neu eu trefniadau gyda'r sefydliad;
- **amserlen:** arolygu cyrhaeddiad yn erbyn yr amserlen yn y cynllun;
- **anfodlonrwydd:** arolygu amllder a natur cwynion ynglŷn â gwasanaeth Cymraeg y sefydliad.

- ◆ Cadarnhad bod y prif gyfrifoldeb dros arolygu ac adolygu'r cynllun wedi'i roi'n benodol i uwch-swyddog, a bydd enw'r person hwn yn wybyddus i staff eraill ac unrhyw asiant neu gontractwr a gyflogir gan y sefydliad, fel sy'n briodol, yn ogystal ag i'r cyhoedd.
- ◆ Ymrwymiad i sicrhau y bydd arolygu'r cynllun yn weithgaredd parhaus â strwythur iddo, ac y bydd yn cynnwys arolygu'r rhai sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran y sefydliad.
- ◆ Ymrwymiad i gynnal arolwg yn achlysurol i geisio barn siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaeth y sefydliad am amrediad a safon y gwasanaeth a ddarperir ganddo drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ◆ Ymrwymiad i fabwysiadu trefn gwyno i ddelio ag anfodlonrwydd ynglŷn â'r cynllun, unai fel rhan o drefn gwyno arferol y sefydliad neu ar wahân.
- ◆ Ymrwymiad i groesawu a chofnodi awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth, ac i roi gwybod i'r cyhoedd sut y dylent wneud eu barn yn hysbys, ac i bwy, a sut y delir wedyn â'u sylwadau.
- ◆ Ymrwymiad i ddarparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd mewn ffurf wedi ei chytuno ganddo, sy'n disgrifio'r cynnydd yng ngweithrediad y mesurau yn y cynllun o'i gymharu â'r amserlen a'r safonau a gytunwyd, ac sy'n dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau gwelliant a dderbyniwyd gan y cyhoedd.
- ◆ Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i weithredu'r ymrwymadau hyn, yn unol â'r Cyngor uchod.

CANLLAW
8(vii)

Dylai'r cynllun bennu targedau y gellir mesur gweithredu'r cynllun yn eu herbyn.

CYNGOR Bydd amryw ffurfiau i'r targedau, yn ôl natur y gweithgaredd neu'r amcanion yn y cynllun. Dylai pob un fod yn eglur, yn ddiamwys ac yn berthnasol.

O dan adran 12 y Ddeddf, mae angen i'r cynllun gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu'r



mesurau sydd ynddo. Bydd yr amserlen, ynddi'i hun, yn sefydlu targedau ar gyfer gweithredu'r cynllun.

At hyn, dylid gosod targedau priodol i fesurau unigol o fewn y cynllun o ran prydlondeb delio â materion, neu'r safonau y dylid eu cyrraedd. Bydd hyn yn cynnwys er enghraifft, prydlondeb ateb gohebiaeth neu drefnu cyfarfodydd, neu'r disgwyliadau a osodir ar gyfer cyhoeddi a dosbarthu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o gyhoeddiadau a ffurflenni.

- ◆ Disgrifiad o'r targedau a gynigir ar gyfer mesur gweithredu'r cynllun yn eu herbyn. Y rhain i fod yn eglur, yn ddiamwys ac yn berthnasol.

MESURAU

Dylai'r cynllun bennu'r camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth sy'n cymharu perfformiad y sefydliad yn erbyn y safonau a nodir yn y cynllun.

CANLLAW
8(viii)

Dylai'r trefniadau arolygu sicrhau bod modd cyhoeddi'n rheolaidd gwir berfformiad yn erbyn y safonau a'r targedau a osodwyd. Gellid cyflawni hyn drwy osod y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol neu ddogfennau eraill lle caiff safon perfformiad ei adolygu. Gall y Bwrdd hefyd ofyn i'r sefydliad gyhoeddi adroddiad penodol ar berfformiad. Mae yna hefyd ffyrdd eraill o gyrraedd cwsmeriaid a staff y gellid eu hystyried, fel cylchlythyrau a phosteri mewn mannau cyhoeddus o fewn swyddfeydd.

CYNGOR

Bydd y dull yn amrywio gyda natur gweithgareddau'r sefydliad. Dylai gynnwys, fel sy'n briodol, faterion megis:

- canran yr atebion i ohebiaeth Gymraeg a roddwyd mewn pryd;
- canran o'r cyhoeddiadau a wnaed yn ddwyieithog, ac o'i gymharu â'r meini prawf yn y cynllun;
- perfformiad cadw at amserlen prosesu hawliadau a cheisiadau a wnaed yn Gymraeg;
- canran y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg wedi ei bennu'n ddymunol.

Os na fydd y safonau a gyhoeddwyd yn cael eu cyrraedd, bydd angen i'r sefydliad esbonio'r rhesymau am hyn ac esbonio pa gamau y bydd yn eu cymryd i gywiro pethau.

Bydd y Bwrdd yn cynghori sefydliadau sut i adrodd i'r Bwrdd ac i'r cyhoedd am berfformiad yn erbyn safonau a thargedau.

- ◆ Ymrwymiad i gyhoeddi'n rheolaidd wybodaeth sy'n cymharu perfformiad yn erbyn y safonau a thargedau a nodir yn y cynllun.
- ◆ Disgrifiad o'r camau a gymerir i weithredu'r ymrwymiad hwn yn unol â'r Cyngor uchod.
- ◆ Ymrwymiad i esbonio'r rhesymau dros beidio â chyrraedd y safonau a'r targedau a gyhoeddwyd, ac i esbonio pa gamau a gymerir i gywiro pethau.

MESURAU



Yn ogystal â'r angen i sefydliadau roi sylw i ganllawiau'r Bwrdd, mae ganddynt ddyletswyddau statudol ychwanegol sy'n ymwneud â pharatoi a gweithredu cynlluniau. Mae'r rhain wedi eu cynnwys isod, gyda chyngor i gydfynd â hwy.

ADRAN 12(2)(b) Y DDEDDF

Rhaid i gynllun gynnwys darpariaethau i bennu ym mha ffurf y bydd y [sefydliad] yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun.

CYNGOR Mae gan sefydliadau hefyd ddyletswydd statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Ar wahân i gyhoeddi'r cynllun ei hun (Canllaw 1), dylai'r cynllun ddisgrifio sut y bydd y sefydliad yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w wasanaethau Cymraeg, a hynny ar y cychwyn ac yn barhaus.

Dylai'r trefniadau cyhoeddusrwydd sicrhau bod pobl sy'n delio â'r sefydliad yn gwybod am y cynllun a'i gynnwys, a sut y gallant ddelio â'r sefydliad yn Gymraeg. Dylai hysbysu'r cyhoedd pa wasanaethau yn Gymraeg sydd ar gael, a ble a phryd y maent ar gael. Dylai hyn adlewyrchu'r amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y cynllun.

Bydd y dulliau a ddewisir i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau yn amrywio rhwng sefydliadau, ond dylid defnyddio'r ffyrdd arferol o gysylltu â'r cyhoedd, fydd yn amrywio o daflenni a phosteri ar ffurf siartr i negeseuon electronig a bwletinâu gwybodaeth ar deledu a radio, fel sy'n briodol. Os bydd sefydliadau am gyhoeddi crynodeb o'r ymrwymadau yn eu cynllun, bydd yn rhaid iddynt gael cymeradwyaeth y Bwrdd i'r ddogfen honno ymlaen llaw.

Dylid sicrhau bod staff ac asiantau'r sefydliad (yn arbennig y rhai sy'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at weithredu'r cynllun) yn gyfarwydd â'r mesurau sydd yn y cynllun er mwyn gwneud yn siwr y telir sylw i'r mesurau bob tro mae hynny'n briodol.

MESURAU

- ◆ Disgrifiad o'r hyn a wna'r corff i sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun.
- ◆ Disgrifiad o'r modd y bydd y sefydliad yn rhoi gwybod am ei wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd, ac i'w staff a'i asiantau, ar y cychwyn ac yn barhaus, yn unol â'r Cyngor uchod.



ADRAN 12(2)(a) Y DDEDDF.

Rhaid i gynllun gynnwys darpariaethau i bennu amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau a gynigir yn y cynllun.

Mae gan sefydliadau ddyletswydd statudol i gynnwys amserlen yn eu cynlluniau i weithredu'r mesurau y maent yn bwriadu eu cymryd. Heb gyfyngu ar gyffredinolrwydd Canllaw 2, mae'r Bwrdd yn cydnabod efallai na fydd hi'n bosib gweithredu'r holl fesurau ar unwaith. Bydd rhai ymrwymadau na ellir eu gweithredu cyn rhyw ddyddiad penodedig yn y dyfodol. Fe all eraill fod yn fwriadau tymor hir, y mae'r sefydliad yn ymgyrraedd tuag atynt, fel a nodir yn ei gynllun.

CYNGOR

Bydd y Bwrdd am weld ymrwymiad pendant, wedi ei fynegi ar ffurf amserlen sy'n rhoi dyddiadau targed ar gyfer gweithredu yn erbyn pob mesur. Pan na ellir rhoi dyddiadau gweithredu pendant, dylai sefydliadau ddisgrifio'r camau y bwriadant eu cymryd i sicrhau cynnydd, a'r hyn y maent am ei gyflawni o fewn amserlen benodol. Bydd angen i'r Bwrdd gytuno amserlen benodol gyda phob sefydliad.

- ◆ Amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y cynllun, gan gynnwys dyddiadau targed ar gyfer gweithredu yn erbyn unrhyw fesurau unigol na ellir eu gweithredu ar unwaith, neu'n llwyr.

MESURAU



**BWRDD
YR IAITH
GYMRAEG**



Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i hybu a hwyluso defnydd yr Iaith Gymraeg. Mae gwaith y Bwrdd yn cynnwys:

- datblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau i sicrhau ffyniant parhaol i'r iaith yn y dyfodol;
- sicrhau fod cyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth wneud hynny;
- annog cyrff preifat a gwirfoddol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg;
- cadw gorolwg strategol ym maes dysgu Cymraeg fel ail iaith ac addysg gyfrwng y Gymraeg ar bob lefel;
- dyrannu grantiau yn flynyddol er mwyn hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- datblygu deunyddiau a gwasanaethau wedi'u hanelu at hwyluso defnydd o'r Gymraeg (gan gynnwys meddalwedd prosesu geiriau Cymraeg);

Am wybodaeth bellach cysylltwch â ni yn:

**Siambrau'r Farchnad,
5 - 7 Heol Eglwys Fair,
CAERDYDD, CF1 2AT**

Rhif ffôn: (01222) 224744

Rhif ffacs: (01222) 224577

